

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd	Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
HYBRID	0300 200 6565
Dyddiad: Dydd Llun, 10 Hydref 2022	<a href="mailto:Deisebau@senedd.cymru">Deisebau@senedd.cymru</a>
Amser: 14.00	

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 34)

### 2 Deisebau newydd

- 2.1 P-06-1232 Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn

(Tudalennau 35 – 46)

- 2.2 P-06-1286 Sicrhau bod triniaeth a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod COVID19

(Tudalennau 47 – 52)

- 2.3 P-06-1289 Dylid cytuno ar ddeiliadaeth o 105 diwrnod, yn hytrach na 182 diwrnod, er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng busnesau llety gwyliau ac ail gartrefi

(Tudalennau 53 – 72)

[https://www.wta.org.uk/uploads/8/3/7/1/83716138/ukh.wta.pasc\\_boe\\_1500\\_080422f.pdf](https://www.wta.org.uk/uploads/8/3/7/1/83716138/ukh.wta.pasc_boe_1500_080422f.pdf)

- 2.4 P-06-1290 Galluogi trigolion Cymru i gael mynediad at lwybr diagnosis "Hawl i Ddewis" y GIG ar gyfer ADHD

(Tudalennau 73 – 79)

- 2.5 P-06-1292 Gwneud i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru adrodd ar allyriadau cwmpas 3 a'u cynnwys mewn targedau sero net

(Tudalennau 80 – 87)

- 2.6 P-06-1293 Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn

(Tudalennau 88 – 93)



- 2.7 P-06-1294 Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru ar ôl

(Tudalennau 94 – 100)

<https://www.mbcwales.co.uk/open-letter>

- 2.8 P-06-1295 Dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder diofyn CYN iddo ddod i rym

(Tudalennau 101 – 109)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

- 3.1 P-06-1163 Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

(Tudalennau 110 – 111)

- 3.2 P-06-1218 Hysbysu pob person 18 oed sydd wedi derbyn gofal cymdeithasol fod ganddynt yr hawl i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol

(Tudalennau 112 – 114)

- 3.3 P-06-1228 Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021

(Tudalennau 115 – 120)

- 3.4 P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru

(Tudalennau 121 – 129)

- 3.5 P-06-1262 Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i benderfyniadau a wnaed ganddi cyn ac yn ystod y pandemig

(Tudalennau 130 – 132)

- 3.6 P-06-1269 Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru

(Tudalennau 133 – 137)

- 3.7 P-06-1271 Caffael y tir gan Network Rail lle mae ATR884 yn rhedeg fel llwybr caniataol a threfnu cynnal a chadw

(Tudalennau 138 – 140)

3.8 P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru

(Tudalennau 141 – 146)

3.9 P-06-1274 Rhowch stop ar y camau i amddifadu Trefynwy o'i Cherbyd Ymateb Cyflym

(Tudalennau 147 – 162)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# P-06-1232: Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Hydref 2022  
Petitions Committee | 10 October 2022

Cyfeirnod: SR21/1626-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1232

Teitl y ddeiseb: Rhoi terfyn ar sefydlu unedau dofednod dwys trwy ddeddfu a chyflwyno moratoriwm hyd nes y gellir cyflawni hyn

Geiriad y ddeiseb:

Mae llawer o unedau ffermio dofednod dwys yng Nghymru. Powys yw un o'r mannau â'r nifer fwyaf o'r unedau hynny. Mae 147 o geisiadau unedau dofednod dwys wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Sir Powys. Mae'r unedau hyn yn dod â llawer o broblemau gyda nhw gan gynnwys llygredd afonydd a thir, arogl, amonia, traffig, sŵn a golau bob awr o'r dydd. I lawer o bobl, mae'r arfer o ffermio dofednod dwys yn greulon ac yn ddiangen.

Er i lawer o bentrefi gael eu difetha gan yr unedau hyn, nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud i'w hatal. Mae angen i'n gwleidyddion weithredu.

Pentref bach arall ym Mhowys yw'r diweddaraf mewn rhestr hir i gael ei fygwth gan adeiladu uned ddofednod ddwys. Ardal wledig yw hon, ac mae trigolion y pentref ac ymwelwyr yn cerdded ar y ffyrdd yn rheolaidd. Mae'r dirwedd yn ysblennydd, nid oes llygredd golau ac mae'r distawrwydd yn



fyddarol, sy'n hyfryd. Mae afon Cain yn llifo drwy'r pentref yn agos at y safle ac yn llifo i afon Hafren.

Er i lawer o bentrefi gael eu difetha gan yr unedau hyn, nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud i'w hatal. Mae angen i'n gwleidyddion weithredu. Felly, mae'r ddeiseb hon yn ceisio cymhell y gwleidyddion i ddeddfu; maent wedi addo gwneud hynny ers blynnyddoedd; maent yn derbyn bod hwn yn fater difrifol ond nid oes deddfwriaeth o hyd.

Addawyd TAN (Nodyn Cyngor Technegol) ynghylch unedau dofednod dwys yn 2019. Mae Lesley Griffiths, y Gweinidog Amaeth, wedi dweud bod yn rhaid gwneud rhywbeth, yn enwedig o ran yr unedau llai. Ond rydym yn dal i aros.

## 1. Cefndir

### Deiseb flaenorol

Mae'r ddeiseb hon yn debyg i ddeiseb flaenorol a drafodwyd gan y Pwyllgor a oedd yn eich rhagflaenu: P-05-815 Rheoli'r Diwydiant Dofednod Dwys Sy'n Ehangu'n Gyflym yng Nghymru. Fe wnaeth y Pwyllgor gau'r ddeiseb honno ar 27 Gorffennaf 2020 gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth bellach, a nododd fod y gwaith yn mynd rhagddo i adolygu - a phan fydd cyfleoedd yn cael eu nodi, cryfhau - gofynion cynllunio sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth ddwys. Cytunodd y Pwyllgor i nodi'r pryderon difrifol a fynegwyd gan y deisebwyr trwy gydol y broses hon ond daeth i'r casgliad - yn wyneb yr ymatebion a gafwyd gan y Gweinidog, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r deisebwyr - mai prin iawn yw'r hyn y gallai ei gyflawni ymhellach ar hyn o bryd. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ac ysgrifennu at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn a all barhau i fonitro datblygiadau fel rhan o'u gwaith ynghylch defnydd tir a bioamrywiaeth.

### Rheoleiddio unedau dofednod dwys

Mae dwy brif agwedd i reoleiddio unedau dofednod newydd:

- y system gynllunio, y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gyfrifol amdani;

- y broses drwyddedu amgylcheddol, y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol amdani;

Yn fras, mae angen caniatâd cynllunio ar unedau newydd ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ogystal lle maent yn uwch na throthwyon penodol. Mae hefyd angen trwydded amgylcheddol uwchben trothwy penodol.

Ceir rhagor o fanylion am y broses caniatâd cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol ar gyfer unedau dofednod ym mhapur briffio Ymchwil y Senedd a ddarparwyd i'r pwylgor a oedd yn eich rhagflaenu.

Yn 2018, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu hatgoffa o'r "angen i ystyried yn llawn effeithiau datblygiadau amaethyddol dwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio". Roedd y llythyr yn nodi:

- Mae angen caniatâd cynllunio fel arfer ar unedau amaethyddol mawr dwys, a ble yn briodol, awgrymir bod ACllau yn sefydlu polisiau priodol o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn hwyluso'r broses o ystyried cynaliadwyedd y math yma o ddatblygiad.
- Gall unedau amaethyddol dwys, yn benodol ffermydd moch a dofednod, gael effaith ar gynefinoedd sensitif yn ogystal â'r boblogaeth leol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod llygryddion yn cael eu rhyddhau, gan gynnwys: amonia; maethynnau o dail, sbwriel a slyri; llygryddion o elifion; llwch; arogl; a sŵn.
- Mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth ystyried datblygiadau a fyddai'n golygu bod unedau da byw yn agos iawn at ddefnydd sensitif o dir megis cartrefi, ysgolion, ysbytai, datblygiadau swyddfeydd neu ardaloedd sy'n sensitif yn amgylcheddol.
- Yr hyn sy'n bwysig yw, er y byddai'n bosibl y byddai datblygiad unigol ar gyfer da byw dwys yn dderbyniol, dylid ystyried effeithiau cronnol o ganlyniad i ddatblygiadau tebyg gerllaw hefyd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer asesiadau amonia ar gyfer datblygiadau sydd angen trwydded neu ganiatâd cynllunio.

Mae unedau dofednod hefyd yn ddarostyngedig i reoleiddio sy'n ymwneud â risg clefydau i ieched anifeiliaid a phobl, ac o ran lles anifeiliaid.

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Gweithgor Amaethyddiaeth Ddwys Cynllunio Gwlad a Thref yn 2019. Ar y dechrau, roedd y grŵp yn cynnwys swyddogion cynllunio o awdurdodau cynllunio lleol, undebau ffermio, grwpiau amgylcheddol,

Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a thimau polisi Llywodraeth Cymru.

I ddechrau, roedd y grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau cynllunio ar gyfer datblygiadau amaethyddiaeth ddwys ar ffurf Nodyn Cyngor Technegol (TAN) newydd.

Ysgrifennodd Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, atoch am y ddeiseb hon ar 13 Gorffennaf 2022. Mae llythyr y Gweinidog yn egluro bod y pandemig wedi torri ar draws gwaith y gweithgor.

Mae cyhoeddiad dilynol Cyfoeth Naturiol Cymru am **berfformiad Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd** yn erbyn targedau ffosfforws llymach yn golygu bod y gwaith ar yr effeithiau cynllunio amaethyddol wedi cael ei ail-ffocysu i ddatrys y broblem ffosfforws uniongyrchol. Mae'r mater yn ymwneud â ffosfforws ar hyn o bryd yn atal nifer fawr o gartrefi newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy, rhag dod ymlaen.

Mae dwy **afon sy'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** ym Mhowys: yr afonydd Gwy ac Wysg.

Fodd bynnag, mae llythyr y Gweinidog yn ymrwymo i ddatblygu'r Nodyn Cyngor Technegol ar ddatblygu amaethyddol gyda'r bwriad o gyhoeddi draft ar gyfer ymgynghoriad yn yr hydref. Mae'r Gweinidog hefyd yn dweud nad yw hi wedi diystyru atal datblygiadau dofednod newydd ond mae'n pwysleisio y bydd hi'n cael ei harwain gan y dystiolaeth.

## Cynhadledd Llygredd Afonydd

Cynullodd y Prif Weinidog **gynhadledd i drafod llygredd ffosfforws yn afonydd Cymru** ar 18 Gorffennaf, sef diwrnod agoriadol Sioe Frenhinol Cymru.

Daeth y gynhadledd ag uwch gynrychiolwyr o reoleiddwyr, cwmnïau dŵr, datblygwyr, llywodraeth leol, undebau ffermio, y byd academaidd a chyrff amgylcheddol ynghyd i drafod datblygu dull strategol a chydgylltiedig o wella'r sefyllfa. Cytunwyd ar wyth o gamau gweithredu:

1. Rhagor o gyllid ar gyfer **Byrddau Rheoli Maethynnau** (£415k ar gyfer 2022-23 a swm heb ei nodi ar gyfer 2023-24 a 2024-25) ac adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Byrddau (gweler cam 8 isod).

2. Datblygu dull rheoleiddio i alluogi atebion sy'n seiliedig ar natur i liniaru ar y llwyth ffosfforws ac i leihau'r effaith ar yr amgylchedd.
3. Gweithredu ymyriadau tymor byr, gan ddefnyddio cymorth ariannol gan ddatblygwyr, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.
4. Datblygu cyfrifiannell maethynnau Cymru gyfan i helpu penderfyniadau cynllunio.
5. Cytuno ar 'ddewislen' o gamau ac ymyriadau lliniarol posibl, i gynorthwyo penderfyniadau byrddau rheoli maethynnau ar gyfres o fesurau i leihau llygredd.
6. Archwilio'r ffordd orau o fwrw ymlaen â dull o roi caniatâd ar gyfer dalgylchoedd, i ehangu'r ystod o fesurau lliniaru sydd ar gael i leihau llygredd yn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
7. Asesu'r potensial ar gyfer gwrthbwys o maethynnau.
8. Map trywydd hirdymor wedi'i gefnogi gan gynllun gweithredu ar gyfer afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Cymru, i'w ddatblygu yn yr hydref. Bydd canlyniad yr adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Rheoli Maethynnau yn cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu.

Cyhoeddwyd pecyn gwybodaeth dechnegol a thystiolaeth i gyd-fynd â'r gynhadledd.

Nod y Llywodraeth Cymru yw cynnull y gynhadledd eto ar ddechrau 2023.

### 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Fel y nodwyd uchod, trafododd y pwylgor a oedd yn eich rhagflaenu ddeiseb debyg yn y Bumed Senedd.

Mae dau o Bwyllgorau'r Senedd bresennol wedi ystyried agweddau ar lygredd dŵr croyw yn ddiweddar:

- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: ymchwiliad i reoliadau llygredd amaethyddol;
- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd: ymchwiliad i ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1232  
Ein cyf/Our ref JJ/12201/21

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jack Sargeant MS  
Chair - Petitions Committee  
Senedd Cymru  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

13 July 2022

Dear Jack Sargeant MS,

**Petition P-06-1232 Stop the proliferation of intensive poultry units (IPUs) by legislating and introduce a moratorium until this can be achieved**

Thank you for your letter of 24 November 2021 to Lesley Griffiths MS, Minister for Rural Affairs and North Wales and Trefnydd regarding intensive poultry units. Your letter has been passed to me to reply as it refers to the production of planning guidance which falls within my portfolio.

Strong rural economies are essential in creating and sustaining vibrant rural places and communities. This is why Planning Policy Wales supports rural business diversification. Such diversification, however, is not at any cost, and national planning policy makes clear sustainable locations are required where there is no detrimental impact on the environment and local amenity.

Prior to the pandemic we reminded local planning authorities of the care needed when planning for intensive livestock development. Intensive agricultural units particularly pig and poultry farms, can affect both sensitive habitats and the local population. This is largely through the release of pollutants, including: ammonia; nutrients from manure, litter and slurry; effluent discharges; dust; odour; and noise.

Agriculture has largely operated outside the town and country planning system, but as agricultural developments have become more intensive, they are being dealt with more frequently by planning authorities. The increasing number of poultry units in Powys is an example where issues of cumulative effects and the carrying capacity of local areas arise.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The Town and Country Planning Intensive Agriculture Working Group was set up to see if the planning system was looking at those impact in the best way possible. The pandemic interrupted the work of the group but guidance, such as Natural Resources Wales's (NRW) update to their ammonia assessment methodology, has been available to help local planning authorities determine applications.

NRW's subsequent announcement in relation to the performance of river Special Areas of Conservation (SACs) against tighter phosphorus targets has meant the work looking at all the agricultural planning impacts in the round has been refocused to solving the immediate phosphorus issue. The habitats regulations require a high degree of certainty that development will not damage the integrity of the river SACs. Consequently, a great many new homes, including affordable homes, are being prevented from coming forward.


There is no one answer to the phosphorus issue so work is needed on a catchment basis to identify the appropriate local solutions. The source of phosphorus varies in proportion across the different catchments with either agriculture or waste water treatment works being the largest contributors. On the rivers Usk and Wye (in Wales), modelling work undertaken by Dwr Cymru Welsh Water shows rural land use to be the largest source accounting respectively for 67% and 72% of total orthophosphate load.

I am still working towards a Technical Advice Note on Agricultural Development, something the Working Group was contributing to. Work will continue to prepare a draft document over the summer, with a view to public consultation in the autumn. In the meantime, I have not ruled out a ban on new poultry development but will be guided by the evidence. The recently published RePhoKUs Project Report on the River Wye catchment, for example, is something I am looking at closely to identify what further action is required.

I will be attending the upcoming Royal Welsh Show with the First Minister and the Minister for Rural Affairs and North Wales and Trefnydd for a summit to look at next steps to address the phosphorus emissions. The event will bring together the key stakeholders from the agriculture, development and water sectors together with regulators to identify the practical solutions needed to protect our rivers while allowing appropriate development to proceed. Also attending will be the chairs of the nutrient management boards we have established who will lead on identifying and delivering the appropriate local solutions. All parties are expected to compromise and play a full part in addressing this challenging issue.

The summit and further work being undertaken both nationally and by nutrient management boards will continue to look at the impacts from poultry units so that, in the longer term, decisions about need and location are taken in a fully informed way. This work will include considering whether further regulation of intensive poultry units, from pollution control and planning perspectives, is desirable.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James".

**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change

**P-06-1232 Stop the proliferation of intensive poultry units (IPUs) by legislating and introduce a moratorium until this can be achieved, Correspondence – Petitioner to Committee, 01.09.22**

Good afternoon

Thanks for this information and the news that the issues raised will be considered. I would like noted that there were 5,920 signatures of support. I have included the words of the petition on page 4 for information and reference.

The petition asks for the following outcomes:

1. A moratorium on any poultry units in Powys, and across Wales until the publication of a specific technical advice note as identified.
2. That appropriate, proper and considered guidance is consulted upon and published in the form of a TAN, as stated by Lesley Griffiths in 2019. Action was also promised early 2018. This TAN should ensure planning authorities cannot ignore the local and environmental issues caused by these developments; and must be cognisant of local and national policies, TANs and DMs, including Well Being and local people, not just those working in agriculture.
3. We ask for essential regulation and guidance for planning authorities. The use of delegated powers, which denies the public a voice, should also be addressed.
4. We would also ask that all information pertaining to an application, including those under permitted development, should be available to the public. Powys have a policy of not publishing comments on their planning portal, and indeed, misleading the public by stating there are no comments. Surely this is outside the rules and processes; using GDPR as a reason/excuse is unacceptable and inaccurate. In fact, their behaviour puts them in breach of GDPR.

To answer the questions you pose:

**1. What are your thoughts on the attached document?**

- a. The document does not address the issues raised. It also lacks detail and timelines.
- b. It seems that the Minister for Climate Change is working on a TAN for Agriculture development. Is this accurate?
- c. Is there 'joined up thinking' between the departments?
- d. There is no comment from the Minister for Agriculture. Why not?
- e. River pollution is only part of the problem.

**2. Does it adequately address the issues that you raised?**

I'm afraid not. It repeats information already published. There have been no actions and there seems to be no willingness to act. The issues are not limited to rivers.

a. This communication is from Julie James, the Climate Minister; she talks of agriculture operating outside the town and country planning system, but as agricultural developments have become more intensive and that they are being now being dealt with more frequently by planning authorities. The concern here is, as mentioned in the petition, that there is no guidance for planning offices to deal with units of less than 40,000 birds. The lack of guidance means that the environment, including rivers and aquifers, can be irreparably damaged by these farming practices.

We also know that Powys Planning continue granting permissions for bird rearing developments despite significant public objections, examples below:

1. Two years ago a change.org petitions called for Powys County Council to action an immediate moratorium on planning permissions for new or extended poultry units in the county until the full environmental - and community - impacts of those we already have can be assessed and reduced. This was rejected by PCC. There were over 80,000 signatures.
2. CPRW<sup>1</sup>. comment that in Powys in the past 5 years there have been
  - a) 156 applications (not counting withdrawn applications)
  - b) 139 applications have been approved and one refusal
  - c) 7 were approved in June 2020
  - d) 23 approvals were voted through by the Planning Committee. 116 were decided by a Planning Officer under “delegated powers”.
  - e) Of the 156 applications in the past five years, there have been 5 refusals but 4 have been resubmitted. One of these has been refused again on highways grounds: one has been approved: 2 are waiting.
  - f) Altogether, there are 21 awaiting determination.
3. In an open letter<sup>2</sup> to PCC the residents of a number of villages affected by the units requested they:
  1. Implement a moratorium in respect of all current and future IPU and other intensive factory farm applications until you are able to accurately take stock of the current situation.
  2. Undertake a comprehensive environmental survey to ascertain if current air and water quality in parts of Powys with a concentration of IPUs are near, or already beyond, saturation point.
  3. Properly assess the human health considerations to residents posed by the already large number of factory farms present in Powys (based on actual studies rather than desk-based predictions).
  4. Provide details of how Powys CC takes into account the provisions of the' Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015' when determining applications.

---

<sup>1</sup> <http://ecotipus.co.uk/cprw-update-powys-county-council-poultry-planning-frenzy>

<sup>2</sup> <http://ecotipus.co.uk/open-letter-from-residents-to-powys-council>

5. Cease determination of all IPU applications until the new Intensive farming TAN is in place to properly guide planning officers in their decision-making process.

b. It seems that the Town and Country Planning Intensive Agriculture Working Group has moved away from the focus initially stated of "the planning system looking at those impact in the best way possible." and are now focussing on river pollution. The impact of these units is not limited to rivers and aquifers. The following must also be considered:

- the impact on local amenities
- the health and well being of individuals affected by these developments
- impacts of ammonia emissions and the resulting damage to ecosystems
- air pollution affecting health
- foul odours and heavy traffic on narrow rural lanes
- light pollution
- noise pollution
- the impacts of industrial-scale development on rural landscapes

Development Management guidance clearly states areas for consideration. Strategic Policies clearly state the rules. As examples, please reference DM1, 2, 3 & 4 and SP7. The development of these units in Powys seem to be exempt from the examples above.

Please view <http://www.brecon-and-radnor-cprw.wales/wp-content/uploads/2019/07/IPU-ALLdataV4-Master-20190707-3-Counties-FINAL-2.0-20190711.pdf> to see the location and number of units of units in Powys and surrounding counties.

There is more than sufficient evidence that Powys Planning do not take into account the comments of local people and businesses. They are obtuse and not helpful when enquiries are made. They do not enforce restrictions they impose. Although anecdotal, they have also stated that they do not take into account the views of community councils who are the representatives of the local communities.

**3. Do you have further questions in response?**

In addition to the questions posed throughout I would ask why has no action been taken and seemingly, little progress made. Covid is not a good enough reason. People continued to work throughout the pandemic.

**4. Is there anything additional that you would like the Committee to know at this stage, either in response to this document or as an update to the Committee.**

This is a critical issue for many who live in Wales. Action has been promised for a number of years, during which time planning for the units continues to be granted. There are many other communications and conversations with the Senedd and the various parties around this issue but still no action. The damage to the local amenities, landscape and lives continues. These are severe issues in Powys.

The text of the petition as published at <https://petitions.senedd.wales/petitions/244997>

"There are many intensive poultry units in Wales. Powys has the unfortunate reputation of being one of the IPU hot spots. There have been 147 IPU applications granted by PCC. IPUs bring with them many issues including pollution of rivers and land, smell, ammonia, traffic, 24x7 noise and light. To many, the practice of intensive poultry production is cruel and unnecessary.

Despite many villages being blighted by these units there is still nothing being done to stop them. We need our politicians to act.

More details

Another small village in Powys is the latest in a long line to be threatened by the building of an intensive poultry unit. This is a rural area, the roads are walked regularly by the people of the village and visitors. The landscape is stunning, there is no light pollution and the silence is, wonderfully, deafening. The River Cain runs through the Village and close to the site feeds into the River Severn.

Despite many villages being blighted by these units there is still nothing being done to stop them. We need our politicians to act. So, this petition is about getting the politicians to legislate; they have promised this for years; they accept this is a serious issue but still the legislation is missing.

A TAN (Technical Advice Note) regarding IPUs was promised in 2019. Lesley Griffiths, the Agriculture Minister has stated that something must be done, particularly with regard to the smaller units. But still nothing."

**P-06-1232 Stop the proliferation of intensive poultry units (IPUs) by legislating and introduce a moratorium until this can be achieved, Correspondence –Third Party to Committee, 18.05.22**

Hello Petitions Team

I wanted to get in touch with the petitions committee at the Senedd to complain about the petition which is ending on the 18th May (today). Regarding stopping the proliferation or intensive poultry units (IPUs). The petition started by Gill Marshall, Chairman of Llanfechain Community Council was notified to the local people by next door app then a website created by my neighbours in Llanfechain called LAIPU (chicken). Gill Marshall and the people who started the website are involved in air bnb and holiday lets. The actions of a few have divided the community and have been very hurtful and upsetting to myself, as a long standing neighbourly feud gets played out against my pre planning consultation for a chicken enterprise at [REDACTED], [REDACTED] which I own and my family have farmed since [REDACTED]. I was looking to diversify and keep the farm alive for my [REDACTED], but incomers to the village have sought to ruin the running of [REDACTED], causing confrontation and malice.

I hope you will consider my complain as a hard working farmer.

Kind Regards

# Sicrhau bod triniaeth a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod COVID-19

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Hydref 2022  
Petitions Committee | 10 October 2022

Cyfeirnod: SR22/3327/1

Rhif y ddeiseb: P-06-1286

Teitl y ddeiseb: Sicrhau bod triniaeth a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod COVID-19.

Geiriad y ddeiseb:

Er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cael trafferth gyda chanser yn cael triniaeth amserol ac yn cael cyfle cyfartal i frwydro canser lle bynnag maent yn byw yng Nghymru. Mae hefyd yn hanfodol i gefnogi teuluoedd sydd ag aelodau o'r teulu â chanser.

Rydym am i'r ddeiseb hon fynd ymhell a chyrraedd teuluoedd sy'n cael trafferth ac er mwyn darparu adnoddau a chyfleusterau i bobl.

## 1. Cefndir

Mae diagnosis cynnar a thriniaeth gyflym yn allweddol i gynyddu'r siawns o oroesi canser.

Cafodd rhai rhagleni sgrinio cenedlaethol eu hoedi yn ystod cyfnod cynnar y pandemig. Effeithiodd COVID hefyd ar ddarpariaeth gwasanaethau, gan achosi



rhywfaint o oedi ar gyfer profion diagnostig a thriniaethau pellach. Yn ogystal, mae dystiolaeth bod rhai pobl wedi dewis gohirio diagnosis a thriniaeth. Mae'r ffactorau hyn wedi cyfrannu at ôl-groniad mewn achosion o ganser.

Mae ymchwil wedi dangos gostyngiadau sylweddol mewn diagnosis canser yng Nghymru yn ystod y pandemig, er enghraifft, roedd dros fil yn llai o achosion newydd o ganser y coluddyn, canser y fron a chanser yr ysgyfaint yng Nghymru yn 2020, o gymharu â 2019.

Yn ôl rhanddeiliaid fel Target Ovarian Cancer, mae'r pandemig wedi cael effaith aruthrol ar atgyfeiriadau brys gan feddygon teulu ar gyfer achosion posibl o ganser ac amseroedd aros am driniaeth.

Mae dystiolaeth yn awgrymu bod llawer o'r bobl sy'n dod i mewn i'r system bellach yn cael diagnosis o ganser sydd wedi datblygu i gam diweddarach – gyda chanlyniadau gwaeth o ganlyniad.

Cyflwynwyd targed llwybr newydd ar gyfer amheuaeth o ganser ar 1 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae'r data amseroedd aros diweddaraf (Mehefin 2022) yn dangos mai dim ond **54 y cant o gleifion a gafodd eu triniaeth gyntaf o fewn 62 diwrnod** i'r amheuaeth o ganser, ymhell islaw'r targed o 75 y cant.

Roedd ymchwiliad diweddar i effaith yr ôl-groniad o amseroedd aros ar bobl yng Nghymru (Ebrill 2022) gan Bwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd yn cynnwys argymhelliaid penodol yn ymwneud â chanser:

Argymhelliaid 3. Dylai'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gyda GIG Cymru a sefydliadau'r trydydd sector i ddatblygu a chyflwyno ymgyrch genedlaethol o fewn y 12 mis nesaf i godi ymwybyddiaeth o symptomau canser, ac i annog pobl i gysylltu â gwasanaethau iechyd os oes ganddynt unrhyw bryderon. Dylai'r ymgyrch hefyd annog pobl i dderbyn gwahoddiadau i gymryd rhan mewn rhagleni sgrinio canser.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliaid hwn, gan nodi

Mae Rhwydwaith Canser Cymru yn gweithio ar gynnig y bydd yn ei gyflwyno i Gynghrair Canser Cymru, a'r Grŵp Ymgyrch Ymwybyddiaeth o Ganser er mwyn datblygu ymgyrch a fydd yn codi ymwybyddiaeth o symptomau canser ac yn annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau iechyd os oes ganddynt unrhyw bryderon neu symptomau canser. Hefyd, bydd yr ymgyrch yn canolbwytio ar bwysigrwydd sgrinio i

wneud diagnosis cynnar ac ar gyfer canlyniadau, a bydd yn annog pobl i dderbyn gwahoddiadau ar gyfer rhagleni sgrinio canser. Cyflwynir y cynnig hwn i'r Bwrdd Rhwydwaith Canser ym mis Medi 2022.

## 2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb yn nodi bod gofal canser wedi'i nodi fel gwasanaeth hanfodol sydd angen ei ddiogelu cymaint â phosibl rhag amharu arno yn ystod y pandemig. Mae'n tynnu sylw at y cyllid newydd a roddodd i'r GIG i gefnogi gwasanaethau; hyfforddi staff newydd, gan gynnwys arbenigwyr gofal canser; a buddsoddi mewn offer newydd a ddefnyddir i wneud diagnosis a thrin canser.

Fodd bynnag, mae'n cydnabod, tra roedd y pandemig yn gwaethyg, amharwyd ar y gallu i ddarparu rhai triniaethau canser ac roedd llawer o gleifion wedi dewis gohirio triniaeth ar yr adeg hon. "Mae hyn yn debygol o gael effaith ar ganlyniadau canser".

Dyweddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod wedi "gwneud adferiad mewn gwasanaethau canser yn flauenoriaeth gynllunio i'r GIG". Ategwyd hyn gan gamau gweithredu ar gyfer gwasanaethau canser yn y [Rhaglen i Drawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd](#) (Ebrill 2022). Mae'r rhaglen yn nodi:

Ar sail ffigurau'r blynnyddoedd blaenorol, amcangyfrifir bod oddeutu 4,500 yn llai o bobl wedi cael diagnosis a thriniaeth am ganser. Yn awr, fodd bynnag, mae pobl yn ceisio sylw am achosion posibl o ganser ar gyfradd uwch nag a welwyd erioed o'r blaen.

Mae [datganiad ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer canser](#) yn amlinellu ei dull ehangach o wella gwasanaethau canser.

Dyw y Gweinidog fod gwasanaethau'r GIG wedi cyflwyno nifer o newidiadau i lwybrau i'w cyflymu a bod llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ganser y dylai holl gyrff y GIG geisio eu cyflawni. Mae'r ymateb yn nodi camau pellach a gymerwyd gan gynnwys cyllid i drefnu llwybrau cleifion; meddalwedd digidol newydd i gynorthwyo rheolwyr gweithredol ar gyfer canser i reoli ac olrhain rhestrau aros cleifion; a datblygu hyfforddiant newydd i gefnogi'r holl staff sy'n ymwneud â darparu llwybrau canser. Daw'r Gweinidog i'r casgliad:

I am confident that this combination of focus, effort and support that is being brought to bear will make a significant difference to the delivery of cancer services in the future.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1286  
Ein cyf/Our ref EM/02175/22

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

7 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mai ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch sicrhau bod triniaethau a sgrinio ar gyfer canser yn parhau yn ystod COVID-19.

Fel Llywodraeth, rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu'r GIG rhag effaith y pandemig byd-eang hwn. Gwnaethom gytuno yn gynnar iawn ar y gwasanaethau hanfodol yr oedd angen eu darparu yn ddi-dor cyhyd ag y bo modd. Wrth reswm, roedd gofal canser ymhliith y gwasanaethau hyn. Bryd hynny, bu Prif Weithredwr GIG Cymru yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddiogelu gwasanaethau canser drwy ei waith gyda'r byrddau iechyd yng Nghymru. Gwnaeth fy rhagflaenydd yn y rôl hon a finnau sicrhau cyllid sylweddol newydd i'r GIG er mwyn cefnogi gwasanaethau, ac yn fwy eang na hynny, rydym yn buddsoddi cannoedd o filiynau o bunnau mewn hyfforddi staff newydd, gan gynnwys arbenigwyr ym maes gofal canser, ac mewn cyfarpar newydd a ddefnyddir i wneud diagnosis o ganser ac i'w drin.

Fodd bynnag, mae'n wir, yn anffodus, wrth i'r pandemig waethygu, fod tarfu wedi bod ar y capaciti i ddarparu rhai triniaethau canser, a bod llawer o gleifion wedi dewis gohirio triniaeth ar yr adeg hon. Mae hyn yn debygol o gael effaith ar ganlyniadau i gleifion canser.

Rwyf wedi pennu gwaith adfer mewn gwasanaethau canser yn flaenoriaeth cynllunio i'r GIG. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gynlluniau ymddiriedolaethau a byrddau iechyd ganolbwytio ar waith adfer mewn gwasanaethau canser. Mae hyn ar ben y camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau canser a welir yn ein Rhaglen ar gyfer Trawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill ac sydd ar gael yn:  
[Trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros | LLYW.CYMRU](#)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 51

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwyddom er mwyn gwella canlyniadau i gleifion canser fod angen inni sicrhau bod canser yn cael ei ganfod yn gynharach, a bod pobl yn gallu manteisio ar archwiliadau diagnostig, triniaethau cyflym ar sail llwybrau gofal safonol, gwaith gwell i gynllunio'r gweithlu a chapasiti gweithlu gwell, gofal mwy integredig diolch i system gwybodaeth canser newydd, gwaith i ad-drefnu gwasanaethau clinigol bregus ac, yn hollbwysig, cymorth canolog gwell o ran arbenigedd rhaglen a data.

Rydym yn annog pobl i godi llais os bydd ganddynt symptomau canser posibl, ac rydym yn gweithio drwy ein rhagleni diagnostig cenedlaethol i sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar wasanaethau delweddu ac archwiliadau endosgopig mewn modd amserol yn well, gan ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol a chan ganolbwytio ar sicrhau bod gweithgarwch trin canser yn cynyddu.

Mae gwasanaethau'r GIG wedi cyflwyno nifer o newidiadau i'r llwybrau er mwyn eu cyflymu, ac rydym wedi pennu llwybrau a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ganser y dylai pob corff y GIG fod yn ceisio eu darparu. Sicrhawyd cyllid i staff ychwanegol mewn byrddau iechyd er mwyn trefnu llwybrau i gleifion sy'n cynnwys nifer o dimau rhwng y camau atgyfeirio, gwneud diagnosis, rhoi triniaeth a gwaith dilynol. Mae timau cymorth i ragleni wedi cael eu hanfon i fyrrdau iechyd i'w helpu i aildrefnu eu gwasanaethau er mwyn darparu'r llwybrau cenedlaethol. Mae meddalwedd ddigidol newydd yn cael ei rhoi ar waith er mwyn helpu rheolwyr gweithredol ar gyfer canser i reoli ac olrhain rhestrau aros cleifion. Mae hyfforddiant newydd yn cael ei ddatblygu i gefnogi pawb sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu llwybrau canser er mwyn deall yn well sut y dylid gweinyddu llwybrau mor gymhleth, sy'n cynnwys nifer o dimau.

Hyderaf y bydd y cyfuniad hwn o ffocws, ymdrech a chymorth sy'n cael ei roi ar waith yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau canser yn y dyfodol. Gellir gweld ein dull ehangach o wella ansawdd mewn gwasanaethau canser yn:  
<https://llyw.cymru/y-datganiad-ansawdd-ar-gyfer-cancer-html>

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

# Deiseb: Ilety gwyliau ac ardrethi busnes

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Hydref 2022  
Petitions Committee | 10 October 2022

Cyfeirnod: SR22/3596-9

Rhif y ddeiseb: P-06-1289

Teitl y ddeiseb: Dylid cytuno ar ddeiliadaeth o 105 diwrnod, yn hytrach na 182 diwrnod, er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng busnesau Ilety gwyliau ac ail gartrefi.

Geiriad y ddeiseb: Fel rhan o'i pholisi treth i gyfyngu ar nifer yr ail gartrefi yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru am wella'r broses o wahaniaethu rhwng Iletyau gwyliau cyfreithlon wedi'u dodrefnu ac ail gartrefi. Mae'r Gorchymyn drafft, er gwaethaf y cyngor i'r gwrthwyneb a gafwyd yn ymgynghoriad y Llywodraeth ei hun, yn codi lefel y ddeiliadaeth sy'n ofynnol ar gyfer ennill statws fel busnes o 70 i 182 diwrnod. Nid yw hyn o fewn cyrraedd y rhan fwyaf o Iletyau gwyliau wedi'u dodrefnu, a fydd naill ai'n cau neu'n cael eu hailbennu fel ail gartrefi o ganlyniad i'r newid. Rydym yn cynnig trothwy o 105 diwrnod, sef cynnydd o 50 y cant, yn unol â diffiniadau Cyllid a Thollau EM.

Mae Cynghrair Twristiaeth Cymru, UK Hospitality Cymru a Chymdeithas Broffesiynol yr Hunan Arlwywyr wedi casglu dystiolaeth gan oddeutu 1,500 o fusnesau bach yng Nghymru i ddangos y canlyniadau anfwriadol niweidiol i fywoliaeth a chymunedau yng Nghymru yn sgil trothwy o 182 diwrnod. Mae'n nodi na fydd y Llywodraeth yn cyflawni ei bwriad o ran polisi, sef cyfyngu ar nifer yr ail gartrefi yng Nghymru, ond y bydd yn hytrach yn lleihau nifer y busnesau Cymraeg lleol. Mae'r adroddiad a'r dystiolaeth sy'n ategu'r ddeiseb hon i'w gweld yn <https://www.pascuk.co.uk/wp->



[content/uploads/2022/04/UKH.WTA\\_PASC-BoE-1500-080422.docx](content/uploads/2022/04/UKH.WTA_PASC-BoE-1500-080422.docx). Y Gorchymyn draft yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022.

## 1. Cefndir

Cafodd *Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022* ( y Gorchymyn) ei osod gerbron y Senedd ar 24 Mai 2022. Daeth i rym ar 14 Mehefin 2022 a bydd yn cael effaith ymarferol o 1 Ebrill 2023.

Mae'r Gorchymyn yn diwygio adran 66 o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* (Ddeddf 1988), sy'n diffinio eiddo domestig at ddibenion Rhan 3 (ardrethu annomestig) o'r Ddeddf honno. Mae adran 66(2BB) o Ddeddf 1988 yn nodi pryd na chaiff adeiladau, neu rannau hunangynhwysol o adeiladau, a gaiff eu gosod yn fasnachol am gyfnodau byr fel llety hunanarlwyo, eu hystyried yn eiddo domestig.

Mae'r Gorchymyn cynyddu nifer y diwrnodau y mae'n rhaid i eiddo gael ei osod o 70 o ddiwrnodau o leiaf i 182 o ddiwrnodau o leiaf yn ystod y 12 mis cyn yr asesiad er mwyn cael ei ddosbarthu fel eiddo annomestig. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cynyddu nifer y diwrnodau y mae'n rhaid i eiddo fod ar gael i'w osod (yn ystod y flwyddyn flaenorol) ac y bwriedir iddo fod ar gael i'w osod (yn ystod y flwyddyn ddilynnol) o 140 o ddiwrnodau neu ragor i 252 o ddiwrnodau neu ragor. Bydd

eiddo hunanarlwyo nad yw'n bodloni'r mein i prawf newydd yn cael ei ddosbarthu fel eiddo domestig a bydd yn atebol i dalu'r dreth gyngor, gan gynnwys unrhyw bremiwm cymwys. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau trosiannol felly ni fydd y mein i prawf presennol yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw eiddo a gafodd ei asesu cyn 1 Ebrill 2023.

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae newid diffiniad eiddo domestig yn rhan o gyfres ehangach o newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi a wnaed ers dechrau'r Chweched Senedd mewn perthynas ag effaith ail gartrefi, ac eiddo sy'n cael ei osod am gyfnod byr. Mae **dull tair elfen** Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael ag effaith ail gartrefi yn canolbwytio ar **gefnogaeth** i bobl leol; y **fframwaith rheoleiddio** (gan gynnwys y system gynllunio); a hefyd sicrhau bod perchnogion eiddo yn gwneud **cyfraniad tecach** drwy systemau trethiant lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd ymgyngħoriad ar **Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg** er mwyn cefnogi a diogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Yn ei ymateb i'r **ymgyngħoriad** ar newidiadau i'r diffiniad o eiddo domestig, dywedodd Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod safbwytiau gwahanol rhanddeiliaid ac yn parhau o'r farn y bydd yn ofynnol i eiddo hunanarlwyo gael ei ddefnyddio at ddibenion busnes am y rhan fwyaf o'r flwyddyn er mwyn gweithredu fel eiddo annomestig.

## 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ar **6 Gorffennaf 2022**, trafododd y Senedd gynnig yn enw Tom Giffard AS (Ceidwadwyr) i ddirymu Gorchymyn Ardrethu Annomestig (*Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig*) (Cymru) 2022. Yn y ddadl, dywedodd Mr Giffard y byddai'r cynnydd yn y trothwyon yn "... effeithio'n niweidiol iawn ar allu busnesau i weithredu yng Nghymru ac yn niweidio ein heonomi, gyda llawer o fusnesau'n cael eu gorfodi i gau." Hefyd, tynnodd sylw at bryderon am y newidiadau o fewn y sector.

Ar gyfer Plaid Cymru, dywedodd Mabon ap Gwynfor AS:

... rhaid peidio ag edrych ar y polisi 182 niwrnod ar ei ben ei hun. Mae'r polisi yma o 182 niwrnod yn rhan o becyn ehangach—yn yr achos yma'n

benodol, y cyhoeddiad ddydd Llun am gyflwyno cyfundrefn drwyddedu statudol newydd i letyau gwyliau.

Yn ymateb ar ran Llywodraeth Cymru, dywedodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:

... rwy'n cydnabod y gallai'r meini prawf cryfach fod yn heriol i rai gweithredwyr, ond mae'n bwysig cydnabod bod tystiolaeth yn dangos bod defnydd cyfartalog eiddo hunanddarpar yn fwy na 50 y cant dros y tair blynedd cyn y pandemig. Felly, mae llawer o weithredwyr ym mhob rhan o Gymru eisoes yn bodloni'r meini prawf newydd. A chredaf ei bod yn rhesymol disgwyl i fusnesau fabwysiadu model gweithredu sy'n gwneud y defnydd gorau o'u heiddo a'r budd a ddaw yn ei sgil i gymunedau lleol.

**Gwrthodwyd** y cynnig i ddirymu'r Gorchymyn o 35 o bleidleisiau yn erbyn 14.

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd gyfres o argymhellion yn dilyn ei ymchwiliad i ail gartrefi. Nododd y Pwyllgor fod y gofynion gosod cynyddol ar gyfer llety hunanarlwo'n mynd ymhellach nag y mae llawer o'r ymatebwyr i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun wedi'i awgrymu.

Mae deiseb arall, Dylid caniatáu eithriadau i'r rheol deiliadaeth 182 diwrnod i leihau niwed i fusnesau hunanddarpar diliys yng Nghymru, yn casglu llofnodion hyd at 28 Rhagfyr 2022.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: P-06-1289  
Ein cyf/Our ref: RE-00538-22

Jack Sargeant MS  
Chair – Petitions Committee  
Senedd Cymru  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN  
[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

11 July 2022

Dear Jack,

Thank you for your letter in relation to a petition to change the recently increased letting criteria used to classify self-catering properties for local tax purposes. I am responding as local taxation policy falls within my portfolio. Thank you for the opportunity to provide my views before the Petitions Committee considers the matter.

Views on the policy behind these plans were invited as part of a 12-week [consultation](#) which looked at local taxes for second homes and self-catering accommodation. The consultation was open from 25 August to 17 November 2021 and received almost 1,000 responses. A summary of responses was published on 1 March.

The views conveyed in response to the consultation, including those from respondents representing the wider tourism industry, clearly support a change to the criteria for self-catering accommodation to be classified as non-domestic. Respondents were of the view that the majority of genuine holiday accommodation businesses would be able to satisfy increased letting thresholds, and a wide range of possible alternatives was suggested. The most common specific suggestion was 105 days actually let, but many respondents suggested higher figures. Some respondents were of the view that all properties providing living accommodation should be classified as domestic and liable for council tax, or suggested letting criteria so high that they would have the same effect.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. All correspondence in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The Welsh Government is not duty bound to accept the most common specific response to a consultation. The new thresholds take account of the responses to the recent consultation, and factors such as the operation of the current thresholds and the thresholds applied for other purposes. The Welsh Government is of the view that properties let out as self-catering accommodation on an infrequent basis should be liable for council tax. The increased letting criteria will ensure that self-catering properties are classed as non-domestic only if they are being used for business purposes for the majority of the year. This will provide a clearer demonstration that the properties concerned are being let regularly and are making a substantial contribution to the local economy.

I, therefore, announced an increase to the number of days, within any 12-month period, that a self-catering property is required to be made available to let, from 140 to 252 days, and actually let, from 70 to 182 days. A [technical consultation](#) on the draft Non-Domestic Rating (Amendment of Definition of Domestic Property) (Wales) Order 2022 ran from 1 March to 12 April 2022. The consultation sought views on the clarity and practical application of the draft legislation. A summary of responses has been published.

The technical consultation received 499 responses. The vast majority were from self-catering property owners and representative bodies who stated that the criteria of 182 days actually let is too high. The response to the technical consultation was, therefore, very sector-specific, capturing only part of the broader set of stakeholders which responded to the previous policy consultation. This is generally expected for technical consultations, which mainly attract responses from stakeholders for whom the relevant legislation will be directly applicable.

enghraifft drwy'r Canllaw Adrodd Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru y Llywodraeth.

Mae'n amlinellu'r ffin weithredol a datblygiad ar y cyd y canllaw adrodd ar gyfer proses adrodd newydd y sector cyhoeddus yn ystod gweithdy a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrrf cyhoeddus amrywiol.

Mae'n nodi yn y lle cyntaf, mai'r nod yw canolbwytio ar yr allyriadau sydd o dan reolaeth weithredol y sector cyhoeddus yn uniongyrchol, gan gynnwys Cwmpas 1 a 2, a'r rhan fwyaf o Cwmpas 3. Cafodd y canlyniadau cychwynnol eu cyd-gasglu a'u rhannu ar ffurf adroddiad yn gynharach eleni, sef Data Sero Net y Sector Cyhoeddus ac argymhellion.

Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

Nid oes gan y sector cyhoeddus reolaeth weithredol uniongyrchol dros lawer o'r penderfyniadau allweddol ynghylch pensiynau a buddsoddiadau. Ryw'n deall bod 8 prif gronfa ar draws Llywodraeth leol sydd wedi croni'r rhan fwyaf o'u buddsoddiadau, ac mae'r gronfa wedi cyflwyno datganiad newid hinsawdd / datgarboneiddio. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at gadeiryddion y cronfeydd hyn i'w hannog i fynd ymhellach ac yn gyflymach, ac wedi cwrdd â hwy, a chafwyd peth llwyddiant o ran ymrwymiad i weithio gyda'r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030, gan ddod â hwy yn unol â thargedau sero-net cyfredol y sector cyhoeddus.

### 3. Camau gan Senedd Cymru

Nid yw mater penodol allyriadau Cwmpas 3 wedi'i ystyried yn y Senedd. Fodd bynnag, ar 25 Mai 2022 bu'r Senedd yn trafod cynnig a gyflwynwyd gan Jack Sargeant AS, ar ddatgarboneiddio pensiynau'r sector cyhoeddus. Roedd y cynnig, y cytunwyd arno, yn cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) mai Llywodraeth Cymru oedd y gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan gydnabod y bygythiad difrifol y mae newid yn yr hinsawdd yn ei achosi;

- b) bod cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn parhau i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil ac, ers blynnyddoedd lawer, mae ymgyrchwyr wedi annog cynlluniau i ddadfuddsoddi;
- c) bod partneriaeth bensiwn Cymru wedi symud yn gyflym i dynnu buddsoddiad o ddaliadau Rwsia yn ôl a'i fod wedi symud oddi wrth lo o'r blaen, gan ddangos felly ei bod yn bosibl i gronfeydd pensiwn wneud y penderfyniadau hyn;
- d) bod Aelodau o'r Senedd wedi cymryd y cam cyntaf i symud eu crongfeydd pensiwn eu hunain oddi wrth danwydd ffosil;
- e) pe bai cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dadfuddsoddi, Cymru fyddai'r wlad gyntaf yn y byd i gyflawni hyn, gan ddangos i ddarparwyr crongfeydd bod angen creu cynhyrchion buddsoddi nad ydynt yn ymwneud â thanwydd ffosil.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â thargedau sero net presennol y sector cyhoeddus

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf: JJ/01722/22

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

18 Awst 2022

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Awst 2022.

Er nad yw adrodd gan awdurdodau cyhoeddus yn orfodol ar hyn o bryd, maent yn cael eu cefnogi'n dda a'u hannog yn gryf i wneud hynny – er enghraift drwy ein [Canllaw i'r sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero net](#).

Y llynedd, gweithiodd ystod eang o gyrrf, gan gynnwys awdurdodau lleol, ar gyflenwi'r data perthnasol i helpu Llywodraeth Cymru i gyfrifo ôl troed carbon y sector cyhoeddus yng Nghymru, a byddant yn parhau i wneud hynny eleni.

Cafodd y ffin weithredol ar gyfer y broses adrodd newydd hon yn y sector cyhoeddus ei datblygu ar y cyd yn ystod gweithdy o gynrychiolwyr cyrff cyhoeddus wrth ddatblygu'r canllaw adrodd presennol, ac mae'r broses yn parhau i gael ei datblygu gyda mewnbwn eang gan randdeiliaid a gwensi a ddysgwyd.

Yn y lle cyntaf, y nod yw canolbwytio ar yr allyriadau sydd o dan reolaeth weithredol y sector cyhoeddus [yn uniongyrchol](#), a oedd yn golygu cynnwys allyriadau Cwmpas 1 a 2, a'r rhan fwyaf o allyriadau Gwmpas 3. Cafodd y canlyniadau cychwynnol eu coladu a'u rhannu ar ffurf adroddiad yn gynharach eleni, sef [Data ac argymhellion Sero Net y Sector Cyhoeddus | LLYW.CYMRU](#).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

## Tudalen y pecyn 85

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes gan y sector cyhoeddus reolaeth weithredol uniongyrchol dros lawer o'r penderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â phensiynau a buddsoddiadau. Rwy'n deall bod wyth prif gronfa ar draws y llywodraethau lleol, sydd wedi cyfuno'r rhan fwyaf o'u buddsoddiadau, ac mae'r gronfa gyfunol hon wedi cyflwyno datganiad newid hinsawdd / datgarboneiddio. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at gadeiryddion y cronydd hyn, a chwrdd â nhw, i'w hannog i fynd ymhellach ac yn gyflymach, gyda pheth llwyddiant, ac ymrwymodd i weithio gyda'r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030, gan felly ddod â nhw'n fwy cydnaws â thargedau sero net presennol y sector cyhoeddus. Ategwyd hyn gan y cynnig y cytunodd y Senedd arno ar 24 Mai i weithio gyda'r sector cyhoeddus i gytuno ar strategaeth i ddatgarboneiddio pensiynau erbyn 2030.

Yn gywir,



**Julie James AS**  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

**P-06-1292 Make Welsh public sector organisations report scope 3 emissions and include them in net zero targets, Correspondence – Petitioner to Committee, 06.09.22**

I have a couple of questions I would like to ask before the petition is considered by the committee.

Understanding the carbon footprint of the public sector is vital in efforts to decarbonise. By setting the operational boundary where it is and excluding scope 3 investment emissions you can never actually know the true footprint or know when the public sector reaches true net zero.

It is not net zero if you ignore an entire category of emissions!

Despite much talk of decarbonisation do any of the welsh local authority pension funds or sub funds within the welsh pension partnership report on their scope 3 investment emissions yet?

If not how will the pension fund trustees know when they have decarbonised?

You say the Minister for finance and local government has had some success in encouraging the managers of the sub funds within the WPP to decarbonise.

How was that success measured if they don't report scope 3?

It is great to hear that the Welsh government wants to work with local authorities to create a strategy for local authority pension fund decarbonisation.

By making measuring and reporting of investment emissions mandatory the data would be available for all stakeholders to judge the success of that strategy.

The climate emergency is accelerating as we rapidly burn through our remaining carbon budget.

The finance sector is funding the destruction of the future people will retire into. We need to act now.

Redrawing that operational boundary is a concrete action that could be taken now rather than just encouraging funds to do the right thing without any consistent way of measuring it.

Kind regards  
Dylan Clarke

# Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn

Y Pwyllgor Deisebau | 03 Hydref 2022  
Petitions Committee | 03 October 2022

Cyfeirnod: SR22/3596-6

Rhif y ddeiseb: P-06-1293

Teitl y ddeiseb: Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn.

Geiriad y ddeiseb: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn cant y cant ledled y wlad, gyda sicrwydd ansawdd. Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn yw'r safon fyd-eang ar gyfer trin osteoporosis ac atal toriadau esgyrn, ond mae mynediad at y gwasanaethau yn loteri cod post. Goblygiadau hyn yw y bydd miloedd o bobl sy'n byw ar ochr anghywir llinell ddalgylch yn dioddef toriadau asgwrn cefn a chlun sy'n newid eu bywydau. Gall Llywodraeth Cymru drawsnewid y sefyllfa drwy osod cyfeiriad strategol clir o'r brig, gyda chymorth cyllid cymedrol ar gyfer Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn a chymhellion synhwyrol.

Mae toresgyrn (esgyrn wedi torri) a achosir gan osteoporosis yn un o'r bygythiadau mwyaf difrifol i fyw'n dda yn ddiweddarach mewn bywyd. O'i adael heb ei drin, mae osteoporosis yn bygwth ein rhyddid, ein hurddas, ein hansawdd bywyd a'n hannibyniaeth. Gyda diagnosis cynnar a'r driniaeth gywir, gall pobl sydd ag osteoporosis fyw'n dda, o gael meddyginaethau diogel ac effeithiol sy'n hynod fforddiadwy i'r GIG. Ond o ganlyniad i golli cyfleoedd o ran diagnosis ac ymyrraeth gynnar mae miloedd o bobl ledled Cymru yn colli'r cyfle i gael y feddyginaeth cryfhau esgyrn sydd ei hangen arnynt. Mewn cais Rhyddid Gwybodaeth diweddar, canfu'r Gymdeithas



Osteoporosis Frenhinol (ROS) mai dim ond pedwar allan o saith Bwrdd lechyd a allai gadarnhau bod ganddynt Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn (ac nid yw pob un o'r rhain yn cwmpasu'r poblogaeth gyfan). Mae'r Gymdeithas Osteoporosis yn amcangyfrif y byddai cynyddu'r ddarpariaeth Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn ar gyfer Cymru gyfan yn costio tua £2 filiwn y flwyddyn. Dros y pum mlynedd nesaf, byddai hyn yn arbed tua £25 miliwn i'r GIG a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn atal dros 1,200 o achosion o dorri clun, ac yn rhyddhau dros 34,000 o ddyddiau o ran gwelyau mewn ysbytai aciwt.

## 1. Cefndir

Mae'r Gymdeithas Osteoporosis Frenhinol (ROS) yn **datgan** bod osteoporosis yn effeithio ar ddynion a merched ac yn arwain at esgyrn bregus, a all wedyn arwain at dorri esgyrn brau. Mae torri esgyrn fel hyn yn digwydd ar ôl trawma isel, fel mân gnoc neu gwypm na fyddai fel arfer yn achosi asgwrn i dorri. Mae'r toriadau hyn o ganlyniad i ddwysedd esgyrn isel a dirywiad strwythurol meinwe esgyrn.

Mae'r ROS hefyd yn **datgan** y gellid atal llawer o doriadau esgyrn brau trwy ymyriadau amserol i leihau'r risg o dorri asgwrn. Mae **Gwasanaeth Cyswllt Torri Esgyrn** (FLS) yn systematig yn nodi, yn trin ac yn cyfeirio at wasanaethau priodol yr holl gleifion cymwys dros 50 oed o fewn poblogaeth leol sydd wedi dioddef toriad brau, gyda'r nod o leihau eu risg o dorri asgwrn wedi hynny.

Mae gan yr FLS gydlynnydd penodedig (Nrys Glinigol Arbenigol fel arfer) sy'n gweithio i brotocolau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw i ganfod achosion ac yna asesu cleifion sydd wedi torri asgwrn. Gall y gwasanaeth fod wedi'i leoli mewn unrhyw leoliad gofal lechyd, naill ai mewn ysbyty neu y tu allan i'r ysbyty, ac mae angen cymorth gan ymarferydd â chymwysterau meddygol (yn nodweddiadol meddyg ysbyty neu feddyg teulu ag arbenigedd mewn osteoporosis ac atal toriadau esgyrn brau).

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn llythyr at y Pwyllgor Deisebau ar 2 Medi 2022, mae'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl

werthfawr sydd gan FLS o ran darparu ymyrraeth gynnar, mynediad hawdd at ofal osteoporosis a lleihau'r risg o dorri esgyrn pellach.

Mae'r Gweinidog yn nodi bod Dr Inder Singh, yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Cwympiadau ac Eiddilwch yng Nghymru, wedi blaenoriaethu'r gwaith hwn o fewn Grŵp Strategol y Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Toresgyrn yn sgil Cwympiadau ac Eiddilwch. Ar ôl i Adroddiad Blynnyddol Cronfa Ddata'r Gwasanaethau Cyswllt, gael ei gwblhau gan Coleg Brenhinol y Meddygon, a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2022, dechreuodd Dr Singh adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ar draws Cymru, gan nodi arweinydd archwilio o fewn pob bwrdd iechyd. Roedd yr adolygiad hwn yn rhoi darlun clir o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru, gan helpu i amlinellu'r amrywio sy'n digwydd o ran mynediad, a'r ystod o wasanaethau y mae'r deisebydd yn cyfeirio atynt.

I gefnogi'r maes gwaith hwn, sefydlwyd Grŵp Datblygu a Sicrhau Ansawdd FLS, sy'n cynnwys ystod eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys arweinwyr archwilio'r FLS. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 20 Gorffennaf 2022 a chanolbwytiodd ar ganlyniadau'r archwiliad cenedlaethol, gwella a chefnogi'r broses o ddarparu gofal ledled Cymru a lleihau'r risg o dorri esgyrn dilynol i gleifion sydd wedi torri asgwrn yn ddiweddar oherwydd breuder. Dywedir bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Osteoporosis Frenhinol (ROS) ac yn gwrando ar leisiau cleifion er mwyn sicrhau bod ganddi ddarlun clir am sut y mae'r gwasanaethau hyn, neu'r diffyg mynediad teg at y gwasanaethau hyn, yn effeithio ar y boblogaeth.

Mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wrthi'n trefnu cynhadledd genedlaethol i ddathlu Diwrnod Osteoporosis y Byd ac yn sicrhau bod y byrddau iechyd yng Nghymru yn ymrwymedig i ddatblygu gwasanaethau cyswllt torri esgyrn ar draws Cymru.

Mae'r Gweinidog yn mynd ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal osteoporosis yn ei gwasanaethau presennol, gan weithio i ddatblygu'r ardaloedd hynny lle nad oes gwasanaethau ar hyn o bryd.

Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaeth, ac mae'r Gweinidog yn nodi ei bod yn briodol bod cyllid ar gael drwy eu hadnoddau nhw. Nodir y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i sicrhau bod pwysigrwydd y gwasanaethau cyswllt torri esgyrn yn cael ei gydnabod o fewn eu gwasanaethau gan barhau i dalu sylw manwl i'r cynnydd a wneir.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1293  
Ein cyf/Our ref EM/02911/22

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

2 Medi 2022

Annwyl Jack,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Awst ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-06-1293 Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl werthfawr y mae'r Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn yn ei chwarae drwy ddarparu ymyrraeth gynnar, cynnig mynediad hawdd at ofal osteoporosis, a lleihau'r risg y gallai claf dioddef toresgyrn eto.

Mae Dr Inder Singh, yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Cwympiadau ac Eiddilwch yng Nghymru, wedi blaenoriaethu'r gwaith hwn o fewn Grŵp Strategol y Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Toresgyrn yn sgil Cwympiadau ac Eiddilwch. Ar ôl i Adroddiad Blynnyddol Cronfa Ddata'r Gwasanaethau Cyswllt hyn ([www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/fls-database-annual-report-2022](http://www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/fls-database-annual-report-2022)) gael ei gwblhau gan Goleg Brenhinol y Meddygon, a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2022, dechreuodd Dr Singh adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ar draws Cymru, gan nodi arweinydd archwilio o fewn pob bwrdd iechyd. Yn sgil yr adolygiad hwn, cafwyd darlun clir o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru, a thynnwyd sylw at yr amrywio sy'n digwydd o ran mynediad, a'r ystod o wasanaethau y mae'r pwylgor yn cyfeirio atynt.

Er mwyn cefnogi'r maes gwaith pwysig hwn, sefydlwyd Grŵp Sicrhau Ansawdd a Datblygu cenedlaethol newydd ar gyfer y Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid a'r arweinwyr archwilio. Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol ar 20 Gorffennaf 2022, gan ganolbwytio ar ganlyniadau'r archwiliad cenedlaethol a'r angen i wella, ac ar gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal ledled Cymru a lleihau'r risg y gallai cleifion, sydd wedi dioddef toresgyrn yn ddiweddar oherwydd eiddilwch, ddioddef toresgyrn eto.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:

0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 91

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Osteoporosis Frenhinol (*Royal Osteoporosis Society*) ac yn gwrando ar leisiau cleifion er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun clir am sut y mae'r gwasanaethau hyn, neu'r diffyg mynediad teg at y gwasanaethau hyn, yn effeithio ar y boblogaeth.

Er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd iechyd esgyrn a phwysigrwydd trin osteoporosis, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trefnu cynhadledd genedlaethol i ddathlu Diwrnod Osteoporosis y Byd, er mwyn sicrhau bod y byrddau iechyd yng Nghymru yn ymrwymedig i ddatblygu gwasanaethau cyswllt torri esgyrn ar draws Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i wella effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal osteoporosis yn ein gwasanaethau presennol, gan weithio i ddatblygu'r ardaloedd hynny lle nad oes gwasanaethau ar hyn o bryd.

Y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaeth, ac felly mae'n briodol bod cyllid ar gael drwy eu hadnoddau nhw. Byddwn yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i sicrhau bod pwysigrwydd y gwasanaethau cyswllt torri esgyrn yn cael ei gydnabod o fewn eu gwasanaethau gan barhau i dalu sylw manwl i'r cynnydd a wneir.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**P-06-1293 Provide funding for universal access to Fracture Liaison Services (FLS)**

Thank you for informing me that my petition will be considered by the Petitions Committee on the 19 September and for the document which you attached.

I would be grateful if you will consider my views as follows:

With variation in access to quality FLS across Wales and within individual Health Boards – How will the Welsh Government standardise secondary fracture prevention across Wales, ensuring that all Health Boards prioritise commissioning of quality FLS, that are fully funded and resourced to meet the need of their population?

Many thanks

Yours sincerely

Delyth Evans MBE

# Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru ar ôl

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Hydref 2022  
Petitions Committee | 10 October 2022

Cyfeirnod: SR22-3596-7

Rhif y ddeiseb: P-06-1294

Teitl y ddeiseb: Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru ar ôl

Geiriad y ddeiseb: Mae pobl sy'n byw â chanser y fron metastatig yng Nghymru yn cael eu hesgeuluso'n ddybryd gan y system. Ar hyn o bryd dim ond un nyrs glinigol arbenigol canser y fron neilltuedig sydd gan Gymru, sefyllfa a allaiadael cannoedd o bobl heb ddigon o gymorth. Mae angen i ni wybod faint o bobl sy'n byw gyda chanser y fron metastatig er mwyn gwella gwasanaethau. Ac rydym am wella canlyniadau o ran ansawdd bywyd drwy godi ymwybyddiaeth o symptomau baner goch ar gyfer canser y fron metastatig.

Rydym yn galw am y canlynol:

- Dylai pob person â chanser y fron metastatig yng Nghymru gael mynediad at nyrs glinigol arbenigol neilltuedig ar gyfer canser y fron eilaidd.
- Dylid casglu data am y rhai sy'n byw â'r cyflwr ac yn cael triniaeth ar ei gyfer yng Nghymru.

Nid yw'r Pwyllgor wedi cael ymateb i'r ddeiseb hon gan Lywodraeth Cymru hyd yma.



## 1. Y cefndir

Mae yna sawl math gwahanol o ganser y fron, sy'n datblygu mewn gwahanol rannau o'r fron. Mewn cyfran fach o fenywod, canfyddir cancer y fron ar ôl iddo ymledu i rannau eraill o'r corff (tarddiad y cancer yw meinwe'r fron, yna mae'n ymledu i rannau eraill o'r corff). Gelwir hyn yn ganser y fron metastatig (cyfeirir ato hefyd fel cancer eilaidd neu ganser datblygedig y fron). Cancer y fron cam 4 ydyw yn ei hanfod.

### Symptomau cancer y fron metastatig

Mae'r deisebydd am godi ymwybyddiaeth o symptomau cancer y fron metastatig, a allai fod yn wahanol i symptomau cancer y fron yn y cyfnod cynnar. Weithiau, nid oes dim symptomau o gwbl. Mae cancer y fron yn ymledu gan amlaf i'r esgyrn, yr ymennydd, yr afu neu'r ysgyfaint. Mae rhai o'r arwyddion bod cancer y fron wedi ymledu yn cynnwys:

- Poen yn yr esgyrn neu esgyrn yn torri oherwydd bod celloedd tiwmor yn ymledu i'r esgyrn neu'r madruddyn cefn.
- Cur pen neu bendro pan fydd cancer wedi lledaenu i'r ymennydd
- Prinder anadl, poen yn y frest a pheswch a achosir gan ganser yr ysgyfaint
- Clefyd melyn, cyfog a'r traed a'r dwylo'n chwyddo os yw'r cancer wedi lledu i'r afu/iau

### Opsiynau triniaeth ar gyfer cancer y fron metastatig.

Mae triniaethau ar gyfer cancer y fron metastatig wedi'u cynllunio i leihau tiwmorau ac arafu eu twf, i helpu i leddfu symptomau ac i wella ansawdd bywyd. Yn hytrach na chael un driniaeth yn unig, mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael sawl triniaeth gyda'i gilydd i helpu i frwydro yn erbyn y cancer. Mae'r deisebydd am i "bob person â chanser y fron metastatig yng Nghymru gael mynediad at nyrs glinigol arbenigol neilltuedig ar gyfer cancer y fron eilaidd" i'w helpu drwy eu triniaeth.

Mae'r elusen cancer ac ymchwil Breast Cancer Now yn dweud:

While metastatic breast cancer cannot be cured, treatments can help control forms of the disease for some time and relieve symptoms to help people live well for as long as possible.

## Casglu data

Mae [Breast Cancer Now](#) yn amcangyfrif bod canser y fron metastatig ar 35,000 o bobl yn y DU. Mewn tua 5 y cant o fenywod, mae canser y fron eisoes wedi lledu erbyn i'r claf gael diagnosis.

Ym mis Hydref 2021, dywedodd GIG Cymru y byddai'n cymryd rhan yn yr [Archwiliad Canser y Fron Metastatig Cenedlaethol](#) cyntaf erioed a gynhaliwyd gan y Bartheriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP). Dylai'r Archwiliad hwn, am y tro cyntaf, ddarparu ffigurau cywir yng hylch nifer y bobl yng Nghymru a Lloegr y mae canser y fron metastatig arnynt.

Galwodd Breast Cancer Now am yr Archwiliad yn ei [adroddiad yn 2019](#) a ddatgelodd realiti dinistriol y profiad o fyw gyda chanser y fron anwelladwy yn y DU, a bod llawer o bobl yn profi oedi cyn cael diagnosis, yn cael trafferth i gael cymorth gan nrys arbenigol ac i gael triniaethau a allai newid eu bywyd.

Galwodd yr elusen ar y llywodraethau yn y DU i gasglu data ar ganser y fron metastatig er mwyn gwella diagnosis, triniaeth a chymorth. [Disgwylir y bydd y mewnwlediadau cyntaf sy'n deillio o'r Archwiliad yn cael eu darparu yn 2023](#) ac y bydd yr Archwiliad yn parhau am o leiaf dair blynedd.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [datganiad ansawdd ar gyfer canser](#) ym mis Mai 2022, ac mae hwn yn disgrifio sut y dylai gwasanaethau canser o ansawdd da weithredu. Disgwylir i gynllun gweithredu ar ganser, o dan arweiniad y GIG, gael ei gyhoeddi rywbryd yr hydref hwn.

Dyfynnir llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru mewn [erthygl ar Wales online ym mis Mehefin 2022](#) a oedd yn nodi:

We are committed to improving cancer services and outcomes in Wales, including for people with metastatic cancer. Our new cancer information system will enable better service planning for people with metastatic cancer and we are also introducing a national clinical audit that will benchmark the quality of services provided to people with metastatic breast cancer. We will work with the NHS in Wales to reinforce the need for patients to be given information on signs that their cancer has returned and will give further consideration to the role of nurses specialising in metastatic cancer.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-06-1294 Don't leave metastatic breast cancer patients in Wales behind**  
**- An open letter from the patients of Metastatic Breast Cancer in Wales**  
**and those personally and closely supporting those with Metastatic**  
**Breast Cancer in Wales.**

To the minister of health and social services

My name is Tassia Haines and I am a constituent of Aberavon. Unfortunately, I have been living with metastatic breast cancer (MBC) for over two years even though I am just thirty years old. I am receiving treatment from two health boards and have met people undergoing treatment from all over Wales, and regrettably I must inform you, Wales is failing when it comes to meeting the needs of MBC patients, according to us - The people dying from the disease and the close people supporting those with MBC.

The failures surrounding MBC stems from the insufficient implementation of previous cancer delivery plans and the more recent cancer quality statement which, not only preserves Wales as the only UK nation to not have a cancer strategy but neglects to exhibit accountability and therefore improvement when it comes to a jarring decline in best practice and patient care. Namely, combined efforts of the Welsh Government and the Welsh Breast Cancer Group have been ineffective in protecting patients from the inconsistent care received between health boards. Furthermore, there is still no data to show us how many people are living with MBC in Wales, despite the importance of this being raised and promises to rectify this in 2019. As a consequence, progression of care in this field has moved backwards, as we cannot measure the impact of interventions as people living with MBC remain an unrecognised/unknown group in terms of data.

Imagine having the knowledge that you are not only slowly dying but are also having elements of your identity and life robbed by this invisible, vastly misunderstood disease?

Can you comprehend what it is like to navigate your final months/years between disability, pain and death? and in my case be too sick to pursue a career and have a family, but is not sick enough to die, just yet? Now consider the feeling of impending dread as you realise the system you supported your whole life withheld the knowledge from you that could have potentially prevented this from happening and is also making you face your end alone?

Respectfully, you as Health Minister and our government have indirectly become the architects of this dystopian nightmare as the creators of this fractured framework. By not recognizing the importance of access to an MBC clinical nurse specialist (CNS) to every patient with MBC you have denied them a consistent partner who will be with them through

their terrifying decline from a healthy, pain free life. An MBC CNS is more than a role; they are our familiar face between all the differing doctors, they are our voice when we are overwhelmed, they are our guides, our translators, the guardians of our dignity and most of all, they are our friends who will hold our hands through our end-of life care.

There must be some element of consistency and accountability centrally to allow health boards to do the best they can.

To help begin the urgent development of MBC care we propose three steps that must improve and be implemented:

### **1. Diagnosing MBC**

- 1.a. Patients recovering from primary BC must be informed of the red flag symptoms of MBC.
- 1.b. They must all be made aware and have a direct line of communication to their BC teams when red flag symptoms do arise.
- 1.c. GPs must be made aware of the red flag symptoms of MBC especially when a patient has already had BC.

### **2. Data**

- 2.a. We must have a central system to store data of those living with MBC, this enables us:

- To enable the needs of people with MBC to be identified and addressed
- To measure the effectiveness of interventions
- To inform financial and clinical investment where it is most needed

### **3. Workforce**

- 3.a Pay health professionals appropriately for their over time. They need to feel more valued to be able to make best practice more sustainable.

- 3.b. Every person suffering from MBC MUST have access to a CNS whose workload is focused only on those suffering from MBC. Their role would ensure they:

- Act as the main point of consistent contact between differing health professionals for the patient (Surgeon, Radiographers, treatment nurses, pharmacists, oncologists,  
etc)
- Be there to analyse the holistic needs of each individual patient and refer accordingly (Therapies, counselling, benefits, etc)
- Work alongside Oncologists in designing personalised health plans and to deliver these to the patients and to act as the patient's representative within MDT meetings due to the specific individuals wishes and needs.

Please note this list is not exhaustive of an MBC CNS job specification.

As a unit of all those involved in those closely supporting and living with MBC. It is us - the patients and caregivers who wish to sign this letter in support for urgent change. We call upon you as Health Minister to help make the central changes we

need brought forward by this letter to bring back best practice within MBC and meet the needs of patient care.

Due to the lack of data of those living with MBC and their needs in Wales we feel this letter is an important step forward to represent our issues and desires for change.

Yours sincerely

The patients of Metastatic Breast Cancer in Wales and those personally and closely supporting those with Metastatic Breast Cancer in Wales.

# P-06-1295 Dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder diofyn cyn iddo ddod i rym

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Hydref 2022  
Petitions Committee | 10 October 2022

Cyfeirnod: SR22/3596-10

Rhif y ddeiseb: P-06-1295

**Teitl y ddeiseb:** Dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder diofyn CYN iddo ddod i rym

**Geiriad y ddeiseb:**

Credaf fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal arolwg cyhoeddus ar y newid hwn gan y bydd yn effeithio ar bawb! Nid oes unrhyw dystiolaeth brofedig y bydd yn achub bywydau neu'n lleihau llygredd. Mae dystiolaeth i gefnogi y bydd yn cynyddu'r allyriadau sy'n cael eu rhoi i'r aer gan nad yw ceir wedi'u cynllunio i gael eu gyrru ar y cyflymder hwn! Mae modurwyr bob amser yn cael eu targedu ac mae'n hen bryd i gerddwyr fod yn atebol i ryw raddau! Mae pobl Cymru yn byw mewn democratiaeth, dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar y cynnig hwn.

Maent eisoes wedi cynnal arolwg o grŵp mawr ar hyn a phleidleisiodd y mwyafrif yn ei erbyn!

Eu hunig dystiolaeth yw damcaniaeth ac achlust. Nid oes ganddynt ddim prawf o gwbl i gefnogi eu honiadau y bydd 20mya yn achub bywydau. Yr hyn



y bydd yn ei wneud yw gorfodi ceir i stopio a chychwyn yn fwy aml ac yn y pen draw byddant yn cranni allyriadau mewn un ardal. Ni allaf ond dychmygu eu bod wedi seilio'r dystiolaeth ffug hon ar eu hadroddiad traffordd ar leihau i 50mya - NID YW'N GWEITHIO!!!!

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gwneud mwy i addysgu cerddwyr i groesi ar groesfannau dynodedig yn unig a gosod rhwystrau ar hyd ymyl y palmentydd i'w hatal rhag cerdded allan i'r ffordd unrhyw le y dymunant!

Rydym ni fel modurwyr yn mynd yn fwyfwy rhwystredig am fod yn ysglyfaeth hawdd. O ran beicwyr, gyda'r rheol hon ar waith byddant yn reidio'n gyflymach na cheir. Rwyf wedi gweld hyn eisoes yn yr ardaloedd prawf.

Rhowch lais inni ar hyn ar unwaith!

## 1. Cefndir

Yn 2019 sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried a ddylai 20mya ddod yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y grŵp, gan gynnwys yr argymhelliad y dylid lleihau'r terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig (y rhai mewn ardaloedd preswyl sydd â system o oleuadau stryd heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd) o 30mya i 20mya.

Yn dilyn ymgyngoriad cyhoeddus a chynllun peilot ar draws 8 cymuned, gosododd Llywodraeth Cymru Orchymyn Ffyrrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 ym mis Mehefin. Cafodd y Gorchymyn drafft ei basio gan y Senedd ym mis Gorffennaf a disgwylir iddo ddod i rym ym mis Medi 2023.

Er bydd y terfyn rhagosodedig ar ffyrdd cyfyngedig yn dod yn 20mya, gall awdurdodau priffyrrdd (awdurdodau lleol ar gyfer ffyrdd lleol a Gweinidogion Cymru ar gyfer cefnffyrrdd/traffyrrdd) ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TROs) i newid y terfyn lle bo'n briodol.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi erthygl sy'n edrych yn fanylach ar gyflwyno terfynau 20mya yng Nghymru.

## Effaith terfynau 20mya

Mae'r dystiolaeth ynghylch effaith terfynau a pharthau 20mya ar faterion fel cyfraddau anafiadau, ansawdd aer ac allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi cael ei disgrifio'n aml fel tystiolaeth gymsg.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ar sefyllfa'r dystiolaeth ar derfynau cyflymder 20mya mewn perthynas â'r effeithiau ar ddiogelwch ar y ffyrdd, teithio llesol a llygredd aer. Hefyd yn 2018, cyhoeddodd Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU waith ymchwil ar effeithiolrwydd y terfynau hyn. Canfu ymchwil Llywodraeth y DU:

...there is insufficient evidence to conclude that there has been a significant change in collisions and casualties following the introduction of 20mph limits in residential areas...

Yn ôl ymchwil diweddar gan IAM RoadSmart, elusen sy'n hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd, mae cefnogaeth yn y DU ar gyfer gostwng y terfyn cyflymder ar bob ffordd drefol o 30mya i 20mya wedi cynyddu yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn ôl Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil y sefydliad, nid yw cyflwyno terfyn 20mya cyffredinol o reidrwydd yn llwybr delfrydol i'w droedio. Dywedodd:

Each situation needs to be decided on a case-by-case basis, with local considerations and consultation playing an important role.

Mae'r gwahaniaeth rhwng terfyn 20mya a pharth 20mya hefyd yn bwysig wrth ystyried y dystiolaeth sydd ar gael. Yn ôl ymchwil gan Brifysgol Queen's, er bod tystiolaeth glir bod cyflwyno parthau 20mya, gan gynnwys mesurau gostegu traffig, yn lleihau amlder a difrifoldeb gwrthdrawiadau ac anafiadau, mae diffyg tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd cyflwyno terfynau 20mya sy'n cael eu gorfodi drwy arwyddion yn unig.

Canfu grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru 'dystiolaeth lethol' dros fwy na dau ddegawd bod cyflymderau is yn arwain at lai o wrthdrawiadau ac anafiadau llai difrifol. Mae'n nodi bod y risg o rywun yn cael ei ladd bron bum gwaith yn uwch mewn gwrthdrawiad rhwng car a cherddwr ar 31mya (50 cilomedr yr awr) o'i gymharu â'r un math o wrthdrawiad ar 18.6mya (30 cilomedr yr awr).

Roedd ei adroddiad yn crynhoi:

Disgwylir y daw manteision sylweddol o ran diogelwch ar y ffyrdd yn sgil galluogi mwy o lawer o'r terfynau 20mya, yn enwedig mewn

cymdogaethau difreintiedig. Yn y tymor hwy, disgwylir i ostyngiadau yn y canfyddiad o berygl ffyrdd arwain at fwy o gerdded a beicio a fydd yn gwelli iechyd y cyhoedd ac yn disodli rhai teithiau byr mewn car... Mae mwy o gerdded a beicio hefyd yn debygol o arwain at fwy o gydlyniant cymdeithasol sy'n dod â buddiannau cymdeithasol ac iechyd pellach. Bydd cyflymderau is yn arwain at leihad mewn sŵn traffig, tra bydd effeithiau ar ansawdd aer yn niwtral ar y gwaethaf a bydd cynnydd mewn amserau teithio yn fach...

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o Gwestiynau Cyffredin yn ymwneud â chyflwyno terfynau 20mya sy'n cynnwys gwybodaeth am lygredd a diogelwch ffyrdd. Mae hefyd wedi datblygu fframwaith i fesur effeithiau'r terfyn is yn ardaloedd y cynllun peilot.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r deisebydd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg cyhoeddus cyn i'r terfyn rhagosodedig o 20mya ddod i rym. Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg cenedlaethol a chanfod bod cefnogaeth gref i'r cynlluniau (81 y cant), yn enwedig ymhliith rhieni.

Cynhalwyd ymgyngħoriad ffurfiol hefyd yn 2021. Cafwyd ychydig dros 6,000 o ymatebion, er ar yr achlysur hwn dim ond 47% o ymatebwyr oedd o blaid gostwng y terfyn cyflymder tra bod 53% yn erbyn.

Yn ei lythyr at y Cadeirydd dyddiedig 6 Medi, mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn nodi manylion yr arolwg a'r ymgyngħoriad a amlinellir uchod. Mae hefyd yn cyfeirio at dystiolaeth a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag anafusion ffyrdd a llygredd.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Gorffennaf 2020, trafododd y Senedd gyflwyno terfynau cyflymder rhagosodedig 20mya gyda 45 o 53 Aelod yn pleidleisio o blaid y cynnig.

Fel yr amlinellwyd, gosododd Llywodraeth Cymru Orchymyn Ffyrdd Cyfngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 ym mis Mehefin 2022. Cafodd y Orchymyn drafft ei basio gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022 a disgwylir iddo ddod i rym ym mis Medi 2023.

Ym mis Ebrill, gwnaethoch **ystyried deiseb** yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i gyflwyno'r terfyn 20mya. Bryd hynny gwnaethoch gytuno i gau'r ddeiseb oherwydd gallu awdurdodau lleol i newid y terfyn ar ffyrdd lle na fyddai 20mya yn briodol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref LW/01672/22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

6 Medi 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Awst ynglŷn â Deiseb P-06-1295, sef y ‘Dylid cynnal arolwg cyhoeddus ar leihau'r terfyn cyflymder diofyn CYN iddo ddod i rym’.

Ar 12 Gorffennaf cymeradwyodd Senedd Cymru y ddeddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr o 30mya i 20mya.

Ni fydd y ddeddfwriaeth newydd yn gosod terfyn cyflymder cyffredinol ar bob ffordd, ond bydd yn gwneud terfyn diofyn o 20mya, gan adael i awdurdodau lleol, sy'n adnabod eu hardal orau, i gysylltu â'r gymuned leol i benderfynu pa ffyrdd ddylai aros ar 30mya.

Rwy'n ymwybodol bod hyn yn newid mawr mewn ymddygiad. Ar hyn o bryd mae saith awdurdod lleol yn cymryd rhan yn y broses gychwynnol o gyflwyno'r ardaloedd preswyl 20mya. Pwrpas yr ardaloedd preswyl cam 1 yw defnyddio hyn fel cyfle i ddysgu gwersi er mwyn llunio'r broses gyflwyno genedlaethol a chasglu data tymor hir.

Cynhaliwyd [Arolwg Agweddu'r Cyhoedd at Orchmyntion Traffig a Therfynau Cyflymder 20mya](#) ymhliith sampl gynrychioliadol o'r cyhoedd ddiwedd 2020. Dywedodd pedwar o bob pump o oedolion Cymru (80%) y byddent yn cefnogi terfyn cyflymder o 20mya yn yr ardal lle'r oeddent yn byw, o'i gymharu ag un o bob pump (20%) a ddywedodd na fyddent yn cefnogi hynny. Cafodd [ymgyngoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ar y terfyn cyflymder diofyn o 20mya](#) hefyd ei gynnal yn ystod 2021. Mae canlyniadau'r ymgyngoriad yn dra gwahanol i ganfyddiadau'r arolwg barn cyhoeddus. Mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod o ganlyniad i'r gwahanol ddulliau samplu ar gyfer pob ymarfer. Roedd y sampl ar gyfer yr ymgyngoriad cyhoeddus yn hunan-ddewisol, tra roedd sampl yr arolwg barn wedi'i strwythuro i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyffredinol, a oedd felly'n lleihau'r duedd gan rai oedd yn ymateb o ddewis.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lee.Waters@gov.wales](mailto:Correspondence.Lee.Waters@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 106

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ddeiseb yn awgrymu mai'r unig dystiolaeth sydd ar gael yw 'theori ac achlust' fod bynnag byddem yn cyfeirio Aelodau'r Pwyllgor Deisebau at y sylfaen dystiolaeth sylweddol a gasglwyd dros y 25 mlynedd blaenorol ar fanteision 20mya. Mae dystiolaeth ysgubol bod cyflymderau is yn arwain at lai o wrthdrawiadau ac anafiadau llai difrifol; a thystiolaeth gysylltiedig yw'r dystiolaeth ysgubol bod anafiadau yn lleihau pan fydd terfynau 20mya yn cael eu cyflwyno. Er enghraifft, cymerodd Awdurdodau Lleol yr Alban ran mewn menter Iwyddiannus i leihau'r terfyn i 20mya yn ystod y 1990au hwyr ac rwyf wedi atodi copi o ganfyddiadau'r ymchwil er gwylbodaeth. Yn gryno, canfu'r astudiaeth honno fod gostyngiad sylweddol yn nifer y damweiniau a gofnodwyd y flwyddyn ar ôl cyflwyno'r cynllun treialu 20mya, a hefyd gostyngiad sylweddol o ran difrifoldeb, gyda damweiniau difrifol neu angheuol yn gostwng o 20% i 14% o'r cyfanswm.

Ar hyn o bryd, mae 80 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd yn marw ar ffyrdd Cymru, 80 o deuluoedd na fydd eu bywydau fyth yr un fath eto. Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) yn nodi bod 45% o gerddwyr yn cael eu lladd os ydynt yn cael eu taro gan gar sydd yn symud ar 30mya neu lai ond dim ond 5% pan fo'r cyflymder yn 20mya neu lai. Mae'r risg o gael eich lladd bron i 5 gwaith yn uwch mewn gwrt drawiadau rhwng car a cherddwr ar gyflymder o 31mya o'i gymharu â'r un math o wrthdrawiadau ar 18.6mya. Gweler siart 7 ar dudalen 8 am ragor o wybodaeth: [Anafusion ffyrdd adroddwyd amdanymt: 2020 | LLYW.CYMRU](#).

Mae'r ddeiseb hefyd yn cynnwys datganiad am gerddwyr a hoffwn gyfeirio Aelodau'r Pwyllgor Deisebau at y [diweddarriad i Reolau'r Ffordd Fawr](#) a wnaed ym mis Ionawr 2022. Mae lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n digwydd ar ein ffyrdd bob dydd yn gyfrifoldeb yr ydym i gyd yn ei rannu a gallai gwybod a chymhwyso'r rheolau sydd wedi'u cynnwys yn Rheolau'r Ffordd Fawr leihau anafiadau ar y ffyrdd yn sylweddol. Cysniad yw 'hierarchaeth defnyddwyr ffyrdd' sy'n rhoi'r defnyddwyr ffyrdd hynny, a fyddai'n wynebu'r perygl mwyaf pe bai gwrt drawiadau yn digwydd, ar frig yr hierarchaeth. Hefyd, gall cerddwyr ddefnyddio unrhyw ran o'r ffordd a defnyddio llwybrau beicio yn ogystal â'r palmant, oni bai bod arwyddion yn gwahardd cerddwyr.

Yn ogystal, mae sylfaen dystiolaeth gref na fydd 20mya yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd aer, gyda gwelliannau bach wedi'u gweld mewn gwahanol astudiaethau ar draws y DU. Er enghraifft, efallai y bydd y Pwyllgor Deisebau am weld asesiad diweddar o [lefelau llygredd aer yn Richmond upon Thames](#), yn dilyn gweithredu cynllun 20mya ddiwedd 2019 a dechrau 2020. Dangosodd yr asesiad arwyddion cynnar calonogol y gallai terfynau cyflymder is gyfrannu at lefelau llygredd is. Cyhoeddwyd [memorandwm esboniadol](#) hefyd ym mis Mehefin 2022, pan osodwyd Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022. Yn yr un modd mae Cynghorwyr Iechyd Cyhoeddus wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod ymchwil wyddonol wedi dangos y gall terfynau cyflymder is leihau llygredd lle mae ymddygiad gyrru llyfnach. Mae allyriadau ocsidau nitrogen (NOx) 2 i 4 gwaith yn uwch o dan gyflymiad caled nag o dan gyflymder cyson; felly, yn sylfaenol, bydd mwy o gyflymiad i 30mya, yn llygru mwy na chyflymu i 20mya a gyrru'n fwy cyson wedyn. Yn olaf, er nad yw'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod terfynau 20mya yn lleihau pob math o lygredd aer, derbynir yn gyffredinol nad ydynt yn cynyddu llygredd aer o'i gymharu â therfynau 30mya (Archer et al, 2008; Journard et al, 1995; TEAG, 2013).

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyflwyno terfynau 20mya ar ein gwefan yn:

[Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya | LLYW.CYMRU](#)

[Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya: cwestiynau cyffredin | LLYW.CYMRU](#)

Hoffwn hefyd gyfeirio Aelodau'r Pwyllgor Deisebau at [Strategaeth Drafnidiaeth Cymru](#). Newid Hinsawdd yw'r her fwyaf sy'n ein hwynebu ac mae Llywodraeth a Senedd Cymru wedi ymrwymo i'w gymryd o ddifri – gan wneud penderfyniadau na fydd bob amser yn gyfforddus neu'n hawdd, ond sy'n ofynnol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol Cymru. Mae newid dulliau teithio yn ganolog i'r strategaeth a bydd newid y terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20mya yn chwarae rhan annatod. Rydym yn buddsoddi mewn teithio llesol ac rydym wedi gosod targed o wneud 45% o bob taith drwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio erbyn 2040. Bydd y newid hwn i ddulliau teithio yn ei dro yn helpu i leihau allyriadau drwy leihau nifer y cerbydau ar y ffordd yn enwedig y rhai sy'n gwneud teithiau byrrach y gellid eu gwneud ar droed neu feic. Fel gydag unrhyw newid diwylliannol rydym yn gwybod ei bod hi'n cymryd amser i ddarbwyllo'r cyhoedd ac yn anochel byddwn yn wynebu rhyw her, ond rwy'n hyderus os gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd, gallwn wneud y newidiadau angenrheidiol a fydd o fudd i ni nawr ac yn y dyfodol.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd  
Deputy Minister for Climate Change

**P-06-1295 Hold a public poll on the reduction of the default speed limit  
BEFORE it comes in to force, Correspondence – Petitioner to Committee,  
22.09.22**

I still do not agree with the findings. I understand the need to cut speed around schools and extreme built up areas but it being the defacto default is not appropriate. I stand by my comment of it being theory and hearsay. Similarly to the 'findings' on the 50mph reduction on motorways. In theory driving at 50mph will reduce emissions but when the M4 is constantly congested no matter what time of day it is, these findings are useless.

All of this being said, you hit the nail on the head, it is a massive change and therefore MUJST be put to the public for a formal vote and not decided by less than 100 people in CARDIFF! you mention your 'test' areas, yet several of them have already reverted as it is not working and is causing too many issues. You also mention that you want 45% of all journeys to be made by foot, bike or bus, yet most of Wales is rural and does not have the public transport links to accomodate this. I for one will NEVER commute to work on a bike or by foot as it is way too far away, it would increase my commute time by over double. Public transport is not viable for me either as I am not on a bus route or near a train station without driving there.

Please discuss this in your meetings, however the Welsh population HAS THE RIGHT TO DECIDE THIS NOT YOU AS ITS US THAT ELECT YOU! You work for the people not the other way around!

Regards  
Mark

# Eitem 3.1

P-06-1163 Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rachel Wrathall, ar ôl casglu cyfanswm o 88 lofnodion.

## Geiriad y ddeiseb:

Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun bwrsariaethau i gynyddu nifer y graddedigion o Gymru sy'n aros yng Nghymru neu'n dychwelyd i Gymru i astudio gradd meistr mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg neu Feddygaeth (a elwir hefyd yn bynciau 'STEMM'). Ar hyn o bryd mae'r cyllid hwn yn berthnasol i brifysgolion traddodiadol yn unig, sy'n eithrio myfyrwyr sy'n dewis gradd Meistr mewn pwnc STEMM trwy ddarparwyr eraill. Mae hyn yn eithrio rhai myfyrwyr y mae angen mwy o hyblygrwydd arnynt o ran y pwnc STEMM neu sut caiff y cwrs ei gyflwyno.

## Gwybodaeth Ychwanegol:

Argymhellodd adolygiad Diamond y dylid ymdrechu "i alluogi myfyrwyr i astudio yn y modd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau". (Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, 2016).

Ar hyn o bryd nid oes hawl gan fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd Meistr STEMM yn Ysgol yr Amgylchedd yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen (CAT) ym Machynlleth gael bwrsariaeth STEMM gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyrsiau a ddarperir yn CAT yn canolbwntio'n benodol ar gynaliadwyedd, sy'n cyd-fynd ag ymdrechion Llywodraeth Cymru i newid cwrs Cymru tuag at lwybr mwy cynaliadwy (e.e. trwy'r egwyddorion a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Mae dull addysgu hyblyg yn CAT, ac yn wahanol i brifysgolion traddodiadol, mae'n galluogi myfyrwyr i astudio ar gyfer gradd Meistr a addysgir gan barhau â'u gwaith/cyfrifoldebau gofalu.

Credwn fod eithrio myfyrwyr STEMM mewn sefydliadau fel CAT rhag gallu cael arian bwrsariaeth STEMM yn mynd yn groes i nodau'r polisi bwrsariaeth STEMM.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

## Eitem 3.2

P-06-1218 Hysbysu pob person 18 oed sydd wedi derbyn gofal cymdeithasol fod ganddynt yr hawl i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Victoria Pritchard, ar ôl casglu cyfanswm o 260 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Dylai pawb sydd wedi bod yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol gael gwybod am yr hawl sydd ganddynt i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol gan y gwasanaethau cymdeithasol wrth iddynt droi'n 18 oed. Gall y broses o adolygu papurau nifer o flynyddoedd ar ôl y digwyddiad dan sylw gael effaith niweidiol sylweddol ar les unigolion a theuluoedd.

Mae gan bob person hawliau dynol, a dylid hysbysu pobl ynghylch yr hawl i weld eu ffeiliau.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Gan fy mod i mor angerddol ynghylch helpu plant eraill, penderfynais wneud gradd mewn gwaith ieuenciad a chymunedol. Yn ystod sgwrs gyda fy narlithydd, a oedd yn ymwybodol fy mod i wedi derbyn gofal yn sgil sgyrsiau blaenorol, gofynnwyd imi a oeddwn wedi gwneud cais i weld fy ffeil diogelu data. Doedd gen i ddim syniad beth oedd y ffeil honno, nac ychwaith at beth yr oedd fy narlithydd yn cyfeirio. Rhoddodd fy narlithydd gyngor wrthyf ynghylch yr hyn y dylwn ei wneud. Dilynais y weithdrefn dan sylw a chefais y ffeil. Edrychodd y dyn arnaf gydag empathi, gan ei fod wedi ei darllen. Roedd yr empathi yr oedd yn ei ddangos imi yn destun peth syndod a dryswch i mi.

Mi es i adref â'r ffeil hon, ac roedd gen i gryn ddiddordeb mewn darllen y cynnwys ar yr adeg honno, yn enwedig yn sgil mynegiant wyneb y dyn, a'r ffaith fy mod i'n gwybod ei fod wedi ei darllen hefyd. Fodd bynnag, doedd gen i ddim syniad beth oedd o'm mlaen i. Roeddwn yn agored i'r trawma plentyndod a'r esgeulustod yr oeddwn wedi'u dioddef. Cefais gymaint o sioc,

bu'n rhaid imi weld seiciatrydd gan fy mod i wedi ail-fyw trawma'r gorffennol.

Nid wyf yn beio'r gwasanaethau cymdeithasol am y modd y cefais fy nhrin gan fy rhieni. Nid eu bai nhw oedd hynny.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Caerdydd a Dinefwr
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



Eich cyf/Your ref: P-06-1218  
Ein cyf/Our ref: JMSS/00641/22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

1 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 27 Mai ynglŷn â'r ddeiseb (P-06-1218) i 'Hysbysu pob person 18 oed sydd wedi derbyn gofal cymdeithasol fod ganddynt yr hawl i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol'.

Yn unol â'ch cais, rwy'n amgáu copi o'm llythyr at Benaethiaid Gwasanaethau Plant yr awdurdodau lleol, yn gofyn i Gynghorwyr Personol a thimau Gadael Gofal roi cymorth i unigolion sy'n gadael gofal er mwyn iddynt allu cael mynediad at eu ffeiliau achos.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Julie Morgan".

**Julie Morgan AS/MS**  
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Deputy Minister for Social Services**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 113



Eich cyf/Your ref: P-06-1218  
Ein cyf/Our ref: JMSS/00641/22

Penaethiaid Gwasanaethau Plant yr Awdurdodau Lleol  
Copi at Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol; Arolygiaeth Gofal Cymru

1 Gorffennaf 2022

Annwyl gyfeillion,

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn y Senedd wedi bod yn ystyried deiseb ([P-06-1218](#)) i 'Hysbysu pob person 18 oed sydd wedi derbyn gofal cymdeithasol fod ganddynt yr hawl i wneud cais am eu gwybodaeth bersonol.

Mae Ein Cod Rhan 6 o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi bod rhaid i Gynghorwyr Personol awdurdodau lleol roi cymorth i unigolion sy'n gadael gofal fel y gallant gael mynediad yn hawdd at eu ffeiliau achos. Fel rhan o gyfrifoldebau rhianta corfforaethol awdurdodau lleol, mae'n bwysig sicrhau tryloywder i bobl ifanc am eu hamser mewn gofal a byddwn yn ddiolchgar pe gallai awdurdodau lleol weithio gyda'u Rheolwyr Gadael Gofal a'u Cynghorwyr Personol i sicrhau bod gofynion y Cod yn cael eu cyflawni.

Rwy'n gwybod bod y Timau Gadael Gofal yn cymryd eu cyfrifoldebau am gefnogi unigolion sy'n gadael gofal o ddifri, ac rwy'n gobeithio bod fy llythyr wedi bod o gymorth ichi.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Julie Morgan".

**Julie Morgan AS/MS**  
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Deputy Minister for Social Services**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 114**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## P-06-1228 Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lisa M Williams, ar ôl casglu cyfanswm o 1,252 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

O ganlyniad i'r pandemig, athrawon Cymru sydd yn cario'r baich am farcio, safoni a chymedroli asesiadau TGAU, UG ac A2 yn lle'r byrddau arholi. Mae hyn ar ben dysgu amserlen arferol a marcio gwaith dysgwyr eraill. Mae rhai athrawon ond wedi cael eu rhyddhau am un awr i gyflawni'r gwaith sydd yn anochel felly wedi gorfol cael ei gwblhau ar ôl oriau gwaith ac ar y penwythnos. Mae athrawon CA4 a 5 Cymru yn haeddu bonws am eu hymydrechion fel athrawon Yr Alban.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

<https://www.thenational.scot/news/19094405.nicola-sturgeon-update-400-payment-secondary-school-teachers-lecturers/>.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Cwm Cynon
- Canol De Cymru



Ein cyf/Our ref JMEWL/01566/22

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
Government.Committee.Business@llyw.cymru

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

28 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf yn tynnu fy sylw at Adroddiad Cymwysterau Cymru (*Canfyddiadau a phrofiadau o raddio yn haf 2021*), yng nghyd-destun Deiseb P-06-1228: Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021.

Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 18 Tachwedd, roeddwn yn hynod ddiolchgar am waith caled ac ymroddiad yr holl athrawon a darlithwyr ledled Cymru ac roedd eu hymdrehchion ar y cyd yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu graddau a bennwyd gan ganolfannau. Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar am eu hymrwymiad drwy gydol cyfres arholiadau'r haf 2022, yn enwedig yr arweiniad a'r gefnogaeth a roddwyd i'n dysgwyr wrth baratoi ar gyfer eu harholiadau.

Fel y mae Cymwysterau Cymru'n cadarnhau, comisiynwyd yr adroddiad '*Canfyddiadau a phrofiadau o raddio yn haf 2021*' i ystyried canfyddiadau a phrofiadau athrawon, darlithwyr a phenaethiaid canolfannau a oedd wedi bod yn ymwneud â marcio neu oruchwyllo penderfyniadau graddio, ond nid oedd yn archwilio'r mater o gydnabyddiaeth ariannol, sef canolbwyt y ddeiseb.

Amlygodd yr adroddiad nifer o ganlyniadau cadarnhaol ac er fy mod yn ymwybodol bod rhai meysydd y gellid bod wedi'u gwella, roeddwn yn falch o nodi bod bron pob cyfranogwr yn teimlo bod eu rolau a'u cyfrifoldebau yn eglur drwy'r gydol y broses raddio a'u bod yn hyderus yn eu gallu i'w cyflawni. Un ffactor pwysig sy'n cyfrannu at hyn oedd bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn ymwybodol o, ac wedi mynchu'r hyfforddiant ar y broses raddio a ddarparwyd gan eu canolfannau eu hunain. Roedd yn galonogol gweld bod tua hanner y cyfranogwyr yn ymwybodol o, ac wedi mynchu'r hyfforddiant a ddarparwyd gan CBAC a'u bod, ar y cyfan, yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Cymwysterau Cymru a CBAC yn glir ac yn ddefnyddiol. Roeddwn yn arbennig o falch bod hyn yn cynnwys rhagfarn ddiarwybod a safoni.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

## Tudalen y pecyn 116

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Rwy'n cydnabod y rhan o'r adroddiad yn mynegi y dylai athrawon fod wedi cael eu talu am y gwaith/amser ychwanegol a dreuliwyd ar y broses raddio. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn ail-esbonio'r dull a ddefnyddiwyd yng Nghymru, fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 18 Tachwedd.

I gydnabod rôl ehangach ysgolion a cholegau wrth gyflwyno graddau yr haf diwethaf, gostyngodd CBAC ei ffioedd 42% a wnaeth ryddhau £8 miliwn arall i ysgolion a cholegau. Yn ogystal â hyn, a chan gydnabod gwaith helaeth athrawon a darlithwyr, cyfrannodd Llywodraeth Cymru £1.6 miliwn ychwanegol i alluogi gostyngiad cyffredinol o 50% i ffioedd CBAC ar gyfer 2021. Rhyddhaodd hyn £9.6 miliwn o gyllid ychwanegol i ysgolion a cholegau, gyda'r hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid hwnnw i ddiwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau lleol yn y ffordd orau.

Fel y nodais yn fy ateb blaenorol, yn wahanol i'r trefniadau mewn rhannau eraill o'r DU, cynlluniwyd y model Graddau a Bennir gan Ganolfan yng Nghymru, a'r broses apelio yn benodol, yn fwriadol i alluogi athrawon a darlithwyr i ymgymryd â'r rhan fwyaf o'u rôl yn ystod y tymor. Roedd hon yn ymdrech ymwybodol i gadw gwyliau'r haf yn glir, gan ein bod yn cydnabod bod y gwyliau yn gyfle pwysig i broffesiwn addysg Cymru gymryd seibiant haeddiannol a chyfnod o fyfyrto a pharatoi cyn y flwyddyn academaidd nesaf.

Diolch i chi eto am rannu'r adroddiad hwn a'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â deiseb P-06-1228.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language

**P-06-1228 Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021, Gohebiaeth – Deisebydd at y Pwyllgor, 20.09.22**

**Ymateb i lythyr y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (28.7.22) Deiseb P-06-1228**

- *“..bron pob cyfranogwr yn teimlo bod eu rolau a'u cyfrifoldebau yn eglur drwy gydol y broses raddio a'u bod yn hyderus yn eu gallu i'w cyflawni..”*  
Wrth gwrs bod hwn yn wir achos pobl broffesiynol ydyn ni sydd eisiau y gorau i'n dysgwyr. Roedd dyletswydd arnom i sicrhau bod ein rolau a'n cyfrifoldebau yn eglur a'n bod yn hyderus yn ein gallu i'w cyflawni er mwyn sicrhau llwyddiant haeddianol i'n disgylion ond roedd hyn ar draul ein hiechyd corfforol a meddyliol a'n bywyd teuluol, wrth i ni orfod neilltu o cyfnodau beichus ychwanegol er mwyn cyrraedd y nodau yma. Awgryma'r Gweinidog bod popeth yn fêl i gyd.
- *“tua 50% yn hapus ar y cyfan bod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan CBAC a Chymwysterau cymru yn glir ac yn ddefnyddiol”...*  
Beth am y 50% arall a oedd yn anfodlon felly? Oni ddylai'r canran fod yn llawer uwch - dylai addysgwyr ddangos ffydd a bodlonrwydd yn y cyrff proffesiynol sydd i fod i arwain y ffordd? Ydy'r Gweinidog wir yn ymfalchiö yn y canran israddol yma? Neu a ydyw ond yn ceisio crafu unrhyw ffigyrâu pitw i osod spin cadarnhaol ar y sefyllfa?
- Sentiment nawddoglyd oedd i'r Gweinidog deimlo ei fod yn gorfol "ail-esbonio'r dull a ddefnyddiwyd yng Nghymru". Ni welodd athrawon a darlithwyr Cymru geiniog o'r £19.2 miliwn a neilltuwyd yn y cyfnod hwn ar gyfer y broses raddio. A oedd yr arian yma wedi cael ei wario yn y ffordd gywir/orau? A'r staff a wnaeth yr holl waith yn derbyn dim, dim hyd yn oed yn nhermau 'amser' er mwyn cwblhau y gwaith.
- *“cynlluniwyd y model yn fwriadol i alluogi i athrawon a darlithwyr i ymgymryd â'r rhan fwyaf o'u rôl yn ystod y tymor.”*  
Sylwch ar y defnydd o'r 'rhan fwyaf', sy'n golygu BOD staff WEDI gorfol aberthu rhywfaint o'u hamser gwyliau tu allan i oriau'r tymor.  
*"Roedd hon yn ymdrech ymwybodol i gadw gwyliau'r haf yn glir".*  
Ymdrech efallai ond nid garanti llwyr. A beth am y gwyliau Pasg a Sulwyn (heb sôn am benwythnosau di-ri) pan gollodd staff amser prin gyda'u teuluoedd, o ganlyniad i'r broses raddio? Roedd cryn dipyn o staff yn gorfol gweithio hefyd yn ystod y gwyliau haf hwnnw yn ymateb i apeliadau graddio gan ddisgyblion a rhieni.

Nid yw ymateb Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn ddigonol. Mae'n glir ei fod yn ochri gyda Chymwysterau Cymru a CBAC. Roedden ni fel corff o athrawon a darlithwyr yng Nghymru yn credu y byddai Llywodraeth Cymru Sosialaidd yn cefnogi ei gweithle addysg fel Llywodraeth yr Alban. Ynghyd â'r broses raddio erchyll, a gorfol wyneb heriau Covid, y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf ADY newydd i gyd ar yr un pryd, rydyn ni yn gyflym yn colli ffydd. Byddai iawndal/bonws cyfwerth ag un yr Alban yn mynd cam tuag at adfer ein hyder.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Beth Hales, ar ôl casglu cyfanswm o 5,895 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae endometriosis yn difetha bywydau menywod a'u teuluoedd sy'n byw yng Nghymru gydag 1 o bob 10 yn dioddef o'r cyflwr.

Nid yw achos endometriosis yn hysbys, nid oes gwellhad, yr amser diagnosis ar gyfartaledd yw wyth mlynedd a hanner ac mae rhestr aros chwe blynedd am driniaeth ar y GIG.

Mae'r diffyg dealltwriaeth amlwg o'r cyflwr yn cael effaith niweidiol ar gymdeithas ar bob lefel. Felly mae angen blaenoriaethu cyllid i sicrhau cydraddoldeb gofal iechyd yng Nghymru.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Amlygodd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 pa mor fawr yw'r broblem a wynebir gennym gydag adnoddau'n cael eu gwastraffu a'r niwed sy'n cael ei achosi ar hyn o bryd i unigolion sy'n dioddef o endometriosis. Er i'r canfyddiadau ddangos effeithiau ar ofal iechyd, addysg, lefelau economaidd, ariannol a chymdeithasol o fewn cymdeithas, nid yw'r mwyafrif o'r argymhellion wedi'u mabwysiadu ac mewn sawl ardal mae pethau wedi gwaethygu i ddioddefwyr endometriosis.

(Isod mae'r linc i'r adroddiad hwn gan y Llywodraeth – Endometriosis care in Wales: Provision, care pathway, workforce planning and quality and outcome measures.

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/endometriosis-care-in-wales-provision-care-pathway-workforce-planning-and-quality-and-outcome-measures.pdf>.

A fyddch cystal â llofnodi'r ddeiseb hon er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o endometriosis ac annog Llywodraeth Cymru i ddyrrannu'r

lefel briodol o gyllid ar gyfer y cyflwr hwn fel y gallwn gymryd camau tuag at sicrhau cydraddoldeb gofal iechyd yng Nghymru.

#### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1242  
Ein cyf/Our ref EM/02198/22

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

14 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 7 Mehefin ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghlyn â Deiseb P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, rwyf wedi amlinellu dull gweithredu dwyran er mwyn sicrhau canlyniadau gwell, a rhoi'r gofal a chymorth gorau posibl i fenywod i'w helpu i barhau'n iach ar hyd eu bywydau.

O ran eich pwynt cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a fydd yn ein galluogi i roi trosolwg strategol o'n disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau iechyd menywod ledled Cymru. Mae ymddiriedolaethau a byrddau iechyd yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd menywod yn unol â'r safonau proffesiynol a'r nodweddion ansawdd a nodir yn y datganiad ansawdd hwn.

Er mwyn ymateb i'r egwyddorion a nodir yn y datganiad ansawdd, bydd GIG Cymru yn paratoi Cynllun Iechyd Menywod a fydd yn disgrifio sut y bydd yn penderfynu ar y ddarpariaeth briodol y mae ei hangen i fodloni anghenion eu poblogaethau lleol, gan gynnwys sicrhau bod y gofal trydyddol priodol ar gael i gefnogi cyflyrau megis endometriosis a'r menopos. Lle bydd gwasanaethau trydyddol yn cael eu darparu, rwy'n disgwyl i'r sgyrsiau perthnasol rhanbarthol gael eu cynnal i sicrhau bod trefniadau ariannu priodol ar waith, a bod llwybrau'n cael eu gweithredu mewn modd teg ar draws Cymru gyfan.

O ran eich ail bwynt, mae fy swyddogion yn cefnogi'r GIG wrth iddo ddatblygu'r Cynllun Iechyd Menywod. Rwyf wedi bod yn glir bod yn rhaid i'r cynllun adlewyrchu mewnbwn sylweddol gan ddefnyddwyr gwasanaeth, gan ddangos bod lleisiau a phryderon menywod wedi cael eu clywed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 123

Mae Clymbiaid lechyd Menywod Cymru yn grŵp o randdeiliaid allweddol, a chwrddais â nhw yn ddiweddar i drafod sut y gallem gydweithio i sicrhau bod lleisiau menywod i'w clywed yn glir drwy'r datganiad ansawdd a'r cynllun. Mae fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Glymbiaid er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r dogfennau hyn. Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun yn mynd rhagddo, a bydd proses o ymgysylltu ac ymgynghori parhaus â'r Glymbiaid a rhanddeiliaid ehangach yn cael ei chynnal er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gynhyrchu ar y cyd a'i fod yn ymateb i anghenion yr holl fenywod sy'n defnyddio ein gwasanaethau iechyd.

O ran eich trydydd pwynt, mae'r Grŵp Gweithredu ar lechyd Menywod wedi ariannu nyrsys endometriosis arbenigol a chydgyssylltwyr iechyd y pelfis a llesiant ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r swyddi hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o gefnogi menywod drwy gydol y cyfnod o gael diagnosis a thriniaeth, a hefyd eu cyfeirio at wasanaethau priodol i'w helpu i reoli eu cyflyrau. Mae'r Grŵp Gweithredu ar lechyd Menywod wedi ymrwymo i ariannu'r swyddi hyn am 3 blynedd gyda'r nod o ddatblygu llwybrau gwell i fenywod sy'n dioddef o endometriosis a chyflyrau iechyd y pelfis, a darparu llwybrau cyson ledled Cymru. Serch hyn, dylid nodi bod hwn yn ymrwymiad cyfnod penodol. Rwy'n disgwyl i fyrrdau iechyd ystyried y gwaith a'r manteision i fenywod a'r gwasanaeth sy'n deillio o'r adnoddau hyn, gan roi ar waith fesurau parhaol fel rhan o'u rhwymedigaethau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Rwy'n disgwyl i GIG Cymru ystyried hyn wrth ddatblygu'r Cynllun lechyd Menywod.

O ran eich pwynt sy'n gofyn a fydd endometriosis yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd ar gyfer Gofal Sylfaenol, dylid nodi bod y Fframwaith yn cael ei adolygu fel rhan o broses deirochrog sy'n cynnwys y byrddau iechyd a Chymdeithas Feddygol Prydain. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod ffocws y Fframwaith yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i Safonau Gofal lechyd, gan symud oddi wrth ddull gweithredu sy'n cael ei yrru gan dargedau i gylchoedd o brosiectau Gwella Ansawdd. Bydd amrywiaeth eang o brosiectau Gwella Ansawdd yn cael eu datblygu, gan ganolbwytio ar feysydd blaenoriaeth sy'n gwella gofal cleifion, drwy fod ymarfer cyffredinol yn cael yr effaith fwyaf.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



*Jack Sargeant MS*  
Chair Petitions Committee  
Senedd Cymru  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

August 2022

Dear Mr Sargent,

Thank you for your letter dated 7<sup>th</sup> June.

As you may already be aware, the Welsh Government's Research and Development Division (RDD) leads on strategy, policy and funding for health and care research in Wales. It fulfils this responsibility through Health and Care Research Wales which has a remit to stimulate research excellence, build capacity and capability, and support research delivery in translational and applied research.

We are currently preparing to support the Welsh Government's agenda on Women's Health, therefore your letter is very timely as we consider where the key evidence gaps across a range of issues are, inclusive of endometriosis.

This is over and above existing programmes which we support, for instance we make funding contributions to an agreed set of NIHR (England) run funding schemes which also offer opportunities for researchers with an interest in endometriosis. I am also pleased to inform you that we are in the process of making a PhD award in relation to endometriosis.

You specifically note that there are data gaps in the system which could affect the quality of research into endometriosis. I understand that endometriosis is not an easy diagnosis and could well be under-diagnosed as women need to have sufficient symptoms to consult on this condition and there are other conditions caused by the same symptoms.



Whilst Health and Care Research Wales do not have responsibility for the quality of the data in NHS digital systems, there may be opportunities to explore utilising our SAIL DATABANK team in Swansea University to identify the symptom and diagnosis codes and produce the likelihood of symptoms resulting in a diagnosis, and symptom/diagnostic prevalence.

As this piece of work would be very exploratory, it would require a clear steer from members of the Women's Implementation Health Group on the scope of what is included and whether this might provide anything meaningful over and above what is already available.

I am also aware that colleagues in the School of Psychology in Cardiff University have a strong interest in the diagnosis of endometriosis and are supporting Endometriosis Cymru in this area, therefore this may be a more fruitful research area to progress.

Thank you for bringing these issues to our attention.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Kieran Walshe".

**Professor Kieran Walshe**

Director of Health and Care Research Wales

**P-06-1242 Improve Endometriosis Healthcare in Wales, Correspondence –  
Petitioner to Committee, 05.09.22**

Many thanks for sending on the latest correspondence regarding my petition, and thank you to everyone for the help they've given with raising awareness of endometriosis through the interview and blog that was put together recently.

I appreciate the ongoing correspondence between Jack Sargeant and Eluned Morgan on this matter, and in regards to the Health Minister's latest letter my thoughts are as follows:

- The Women's Health Quality Statement that was announced is fantastic progress for the various health issues and inequalities that we face. To ensure that the much needed change is delivered for patients in Wales and that tangible progress can be monitored, I would ask that the Committee keep my petition open and on their agenda whilst the Plan is being developed and rolled out;
- The Health Minister has said that "*the Plan must have significant input from service users to ensure women's voices are heard plainly and their concerns reflected*". I would therefore like to offer my help to the Health Minister regarding engagement opportunities, as I completely agree that it's imperative that patient voices are heard as much as possible during the development of the plan;
- The Health Minister advises that the Women's Health Plan will ensure "*suitable tertiary care is in place to support conditions such as endometriosis*". One of the questions that I've raised from the start of my petition is regarding the reduction of tertiary care in Cardiff & Vale HB and the lack of tertiary care across the rest of Wales. I therefore still have to ask, what should patients do in the meantime whilst they can't access tertiary care? Why can't the consultant who previously retired (leaving only two endometriosis specialist consultants for the whole of Wales) be replaced whilst the Health Plan is being developed to help address the urgent issue of lack of tertiary care in Wales? Where has the funding gone that was used for his salary? And where are the endometriosis nurses currently signposting the patients who urgently need tertiary care when the waitlists just keep rising?
- I completely concur with the Health Minister's praise of the appointment of the endometriosis nurses. When I was diagnosed, endometriosis nurses weren't in-situ and so I received minimal information and support about the disease and I definitely wasn't signposted to other appropriate services. It was therefore only thanks to the privileged position I'm in of being able to access private healthcare through my work, that meant I was able to seek support to help manage my condition day to day via a private pelvic physio and private mental health support. Even with that, I'm still in pain every day and it's an on-going struggle both physically and mentally (and it's 1 in 10 that have this same chronic illness, but definitely not 1 in 10 who can access private healthcare). I therefore sincerely hope that the WHIG extend the funding of these posts beyond the initial 3 years as it's SO important that progress doesn't end with the endometriosis nurses, and also that we don't see progress eroded at the end of 3 years. Otherwise patients will be back to having nowhere to turn. This is another reason why I ask the Committee to keep the Petition open and help all of us

with endometriosis ensure that the delivery of positive and tangible progress is ongoing;

- Finally, with regard to your point on whether endometriosis will be included in the Quality, Assurance & Improvement Framework for Primary Care, it's not clear whether the Health Minister has answered the question and there's definitely no guarantee that menstrual and gynaecological health conditions will be included. Therefore can the Health Minister offer assurances on this? And how far can patients feed into the process of deciding what might constitute future quality improvement projects?

Please also see below commentary regarding the latest correspondence from the charity Fair Treatment for the Women of Wales, who I volunteer with as one of their endometriosis champions:

#### **Letter from Health Minister to Petitions Committee**

1. **Reference to the Welsh Government's Women's Health Quality Statement** - We would be pleased if the QS made some reference to the #WomensHealthWales Coalition's document, at least as a citation, as it clearly evidences the collaborative and co-productive approach taken by the WG team with third sector partners and patient representatives;
2. **Health boards and trusts are responsible for planning and delivery of women's health services in line with professional standards and the quality attributes set out within the Women's Health Quality Statement** - It would be useful for patients to have some sense of how the WG proposes oversight of this activity, both to ensure standards are met equitably across Wales and that third sector / service-users are involved in design and evaluation of services;
3. **Where tertiary services are provided, I expect suitable conversations to take place on a regional basis to ensure appropriate funding arrangements exist and to enable pathways that provide equitable provision across the whole of Wales**  
- Historically, this has proved problematic due to block funding arrangements in Wales. We would like to see the Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC) playing an active part in these conversations and for national clinical leads and patient advocates to be invited to discuss with them the existing challenges and possible solutions;
4. **Work on the development of the Plan is underway and there will be a process of engagement and ongoing consultation with the Coalition and wider stakeholders to ensure the plan is co-produced and responds to the needs of all women who access our health services** - Beyond the planning stages, we would like to see patient involvement / co-production made a key part of decision-making within implementation groups, and service design / evaluation within each health board. Part of reporting measures should include the degree to which this is taking place. This kind of activity also needs adequate support and resourcing so we would welcome some sense of what plans are in place to provide that sort of sustainability.

## **Letter from HCRW to Petitions Committee**

1. ***We are currently preparing to support the Welsh Government's agenda on Women's Health, therefore your letter is very timely as we consider where the key evidence gaps across a range of issues are, inclusive of endometriosis*** - Can HCRW give some idea of when we might expect to see this reflected in published research priorities / calls? Is HCRW able to provide some sense of the funding that might be attached to women's health-related research projects? Also, can HCRW give some assurances regarding establishing criteria for the co-production of both research topics and project design?
2. ***I am also aware that colleagues in the School of Psychology in Cardiff University have a strong interest in the diagnosis of endometriosis and are supporting Endometriosis Cymru*** - FTWW is pleased to have long collaborated and supported their work on endometriosis. However, longer-term and larger-scale funding is needed to bring some elements of the work to fruition and, indeed, to ensure that they are utilised effectively across Wales, such as digitising the Endometriosis Cymru symptom tracker tool. Might the latter be something with which HCRW could support, or would this be more the remit of Health Education & Improvement Wales?

Please let me know if you require anything further prior to the Petitions Committee meeting on the 19th September.

Best wishes,

Beth Hales

## Eitem 3.5

P-06-1262 Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i benderfyniadau a wnaed ganddi cyn ac yn ystod y pandemig

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Anna-Louise Marsh-Rees, ar ôl casglu cyfanswm o 2,116 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Cafodd llawer o anwyliaid eu heintio â COVID-19 mewn ysbtyai a chartrefi gofal yng Nghymru. Roedd cyfarpar diogelu personol yn brin, ni phrofwyd staff oni bai iddynt ddangos symptomau COVID, roedd y camau a gymerwyd i awyru ystafelloedd yn ddiffygol, a rhoddwyd cleifion COVID ar wardiau nad oeddent wedi'u bwriadu ar eu cyfer. Anfonwyd llawer o gleifion adref heb iddynt gael eu hailbrofi; aethant ymlaen i ledaenu'r haint yn y gymuned cyn iddynt farw. Roedd hysbysiadau 'na cheisier dadebru' yn gysylltiedig â nifer o gleifion heb ymgynghoriad. Roedd cyfathrebu'n wael os oedd yn digwydd o gwbl. Yn bendant, ni ddysgwyd y gwersi perthnasol. Dylid craffu yng Nghymru ar y penderfyniadau a wnaed yng Nghymru a effeithiodd ar bobl Cymru.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Fel y mae'r Prif Weinidog wedi nodi'n glir drwy gydol y pandemig, cafodd y penderfyniadau ar reolau COVID-19 yng Nghymru eu gwneud yng Nghymru. Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn awyddus i dynnu sylw at wahaniaethau sy'n aml yn arwyddocaol rhwng y rheolau yng Nghymru a Lloegr.

Byddai cynnal ymchwiliad penodol i Gymru yn gyfle am adolygiad annibynnol i archwilio a ellid fod wedi atal marwolaethau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn haeddu cael ei chraffu'n llawn – nid ei thrin fel troednodyn mewn ymchwiliad gan Lywodraeth y DU.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1262  
Ein cyf/Our ref FM -/00394/22

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jack Sergeant MS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
[Deisebau@senedd.cymru](mailto:Deisebau@senedd.cymru)

22 Gorfennaf 2022

Annwyl Jack,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 27 Mai mewn perthynas â deiseb gan Deuluoedd mewn Profedigaeth Covid-19 (Cymru) yn galw am ymchwiliad cyhoeddus i Gymru'n unig i'r pandemig.

Rwy'n deall bod gan lawer o bobl – gan gynnwys aelodau'r grŵp – deimladau cryf am yr ymchwiliad cyhoeddus, ac rwyf wedi cael cyfle i drafod y rhain gydag aelodau'r grŵp ar sawl achlysur.

Rwyf wedi nodi fy rhesymau yn y Cyfarfod Llawn ynghylch pam rwy'n credu mai'r ffordd orau o graffu ar benderfyniadau a wneir yng Nghymru yn ystod y pandemig yw drwy fod yn rhan o ymchwiliad ledled y DU. Ni fu unrhyw gamau pellach ers hynny a fyddai'n fy narbwyllo y dylid ailystyried y penderfyniad hwn.

Yr wyf wedi bod yn rhan o'r camau perthnasol wrth i'r ymchwiliad ledled y DU gael ei sefydlu; yn fwyaf diweddar, ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch y cylch gorchwyl a gyflwynwyd gan y Farwnes Hallett yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd. Yr oeddwn yn falch o weld ymateb da i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'n bwysig cydnabod bod Gweinidogion yn comisiynu ac yn cytuno ar gylch gorchwyl ymchwiliad cyhoeddus, cyn i'r ymchwiliad ei hun gael ei gynnal yn annibynnol gan y cadeirydd penodedig. Bydd yr ymchwiliad, ar ôl ei sefydlu'n ffurfiol, yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth. Bydd y cadeirydd yn penderfynu sut y caiff yr ymchwiliad ei redeg a natur ei adroddiadau. Mae'r cylch gorchwyl yn eang a bydd yn galluogi craffu priodol ar ddigwyddiadau a phenderfyniadau a wneir yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dal yn bwysig bod yr ymchwiliad i'w weld yng Nghymru ac y dylai tîm yr ymchwiliad ddod i Gymru i gymryd dystiolaeth. Mae'n galonogol bod tîm yr ymchwiliad wedi cynnal ei ddigwyddiadau ymgynghori cyntaf yng Nghymru; bod grŵp Cymru Teuluoedd mewn Profedigaeth Covid-19 dros Gyfiawnder wedi cyfarfod â'r cadeirydd a thîm yr ymchwiliad a bod pobl o sefydliadau ledled Cymru yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau ymgynghori yn y sector. Mae'r ymchwiliad hefyd wedi bod yn ystyried y Gymraeg yn ei waith.

Ym mis Ionawr, darparodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £4.54m dros ddwy flynedd i gefnogi byrddau iechyd ac Uned Gyflawni'r GIG i ddatblygu rhaglen bwysig a chymhleth o waith ymchwiliol i achosion o Covid-19 oedd wedi dal yr haint mewn ysbytai. Dechreuodd y gwaith hwn ar 1 Ebrill a, hyd yma, mae dros 3,000 o ymchwiliadau wedi dechrau.

Roedd sefydlu ymchwiliad yr Alban yn ymrwymiad maniffesto gan Blaid Genedlaethol yr Alban. Nid oes unrhyw arwydd y bydd ymchwiliad ar wahân yn cael ei gynnal yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.



**MARK DRAKEFORD**

### P-06-1269 Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Marie Curie & MNDA, ar ôl casglu cyfanswm o 2,195 lofnodion.

#### Geiriad y ddeiseb:

Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn marw yng Nghymru wedi colli'r cyfle i gael gofal lliniarol a diwedd oes.

Roedd y cynllun gofal diwedd oes ar gyfer Cymru yn gweithio i drwsio hyn, ond bydd yn dod i ben ym mis Mawrth. Ar hyn o bryd, nid oes cynllun newydd yn barod i gymryd ei le.

Mae arnom angen brys am linell amser, cyllid a staff i gyflawni cynllun newydd.

Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan heb unrhyw beth i gymryd ei le. Llofnodwch heddiw a helpwch ni i wneud yn siŵr nad yw teuluoedd yng Nghymru yn cael eu gadael mewn twll.

#### Gwybodaeth Ychwanegol:

Rydym yn ddiolchgar bod Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu gofal lliniarol a diwedd oes yn Rhaglen Lywodraethu 2021–2026, ond mae'n rhaid gwneud mwy i sicrhau ein bod yn gweld gweithredu priodol.

Bydd strwythurau llywodraethiant clinigol y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu had-drefnu'n fuan. Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru gynigion ar gyfer fframwaith clinigol newydd a Gweithrediaeth newydd ar gyfer GIG Cymru; mae'r fframwaith clinigol yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu Rhaglen benodedig ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes a Datganiad Ansawdd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes. Y bwriad yw i'r trefniadau hyn gymryd lle y Cynllun Cyflawni Diwedd Oes cyfredol, a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

Mae Rhaglen Gofal Lliniarol a Diwedd Oes i'w chroesawu, ond mae seilwaith heb adnoddau digonol a phersonél cyfyngedig i'r rhaglen, ynghyd â'r pandemig, wedi effeithio ar y gallu gyflwyno'r rhaglen newydd yn ôl amserlen briodol. Gyda diwedd mis Mawrth yn prysur nesáu a heb Raglen Gofal Lliniarol a Diwedd Oes i'w gweld, mae'n edrych fel na fydd gan Gymru gynllun Gofal Lliniarol a Diwedd Oes am y tro cyntaf ers degawd.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1269  
Ein cyf/Our ref EM/01934/22

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
Government.Committee.Business@llyw.cymru

2 Awst 2022

Annwyl Jack,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 10 Mai 2022 yn ceisio ymateb i'r canlyniadau arfaethedig a ddarperir gan y deisebwyr ar gyfer Rhaglen Gofal Diwedd Oes. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Rwyf wedi ymateb i bob un o'r prif ganlyniadau arfaethedig isod.

**Cynnydd yn y personél o fewn y Llywodraeth a sefydliadau'r GIG sy'n cefnogi'r rhaglen Gofal Diwedd Oes, mewn modd sy'n gydnaws â meysydd cyflyrau a chlefydau eraill. Byddem yn annog penodi Uwch-arweinydd Rhaglen ar gyfer y Rhaglen Gofal Diwedd Oes.**

Mae tri aelod o staff yn Llywodraeth Cymru y mae rhan o'u rolau'n wedi ei neilltuo ar gyfer cefnogi'r agenda gofali. Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol hefyd yn darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad ar gyfer y rhaglen.

Hefyd yn ddiweddar rydym wedi dyblu nifer y sesiynau y mae Dr Idris Baker, yr arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gofali diwedd oes, yn gallu eu darparu, gan gynyddu'r amser y mae'n gallu ei dreulio'n cefnogi'r rhaglen genedlaethol i ddau ddiwrnod yr wythnos.

Hefyd, mae Cydweithrediaeth y GIG yn cryfhau'r tîm sy'n cefnogi'r agenda gofali diwedd oes, drwy benodi rhywun i ddarparu mwy o gymorth i reolwr y rhaglen, rhywun i swydd uwch ar gyfer cefnogi'r prosiect, ac arweinwyr nyrsio a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Bydd arweinydd profedigaeth amser llawn hefyd yn cael ei recriwtio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Clustnodi cyllid ar gyfer datblygu a darparu'r Rhaglen Gofal Diwedd Oes am y tair blynedd nesaf.**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu dros £10.5m ar gyfer sicrhau bod pawb yng Nghymru sydd ag angen gofal lliniarol a diwedd oes yn cael mynediad teg at y gofal a chymorth gorau posibl. Nid oes unrhyw fwriad i leihau'r cyllid hwn dros y tair blynedd nesaf.

Rydym wedi cyflawni yn erbyn ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i adolygu cyllid hosbis gwirfoddol gan sicrhau bod £2.2m ychwanegol ar gael i hosbisau Cymru o 2022-23 ar sail reolaidd. Mae hyn yn ychwanegol at yr £8.4m yr ydym yn parhau i'w fuddsoddi bob blwyddyn i gefnogi gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol ar draws Cymru.

Mae'r gwaith ar Gam 2 yr adolygiad cyllid, sy'n cynnwys gofal statudol a gwirfoddol, arbenigol a chyffredinol, a'r sbectrwm oed cyfan o blant ac oedolion, bellach yn mynd rhagddo. Bydd y cam hwn yn ystyried modelau darparu, unrhyw amrywiaeth ddaearyddol, a dealltwriaeth o'r gwerth a ddarperir gan y gwasanaethau hyn.

Hefyd yn ddiweddar, rwyf wedi cytuno i barhau â'r £2m y flwyddyn ar gyfer cefnogi'r ddarpariaeth gofal diwedd oes yng Nghymru am weddill tymor presennol y Senedd.

**Cyhoeddi cynllun gweithredu tair blynedd treigl ar gyfer y Rhaglen Gofal Diwedd Oes yng Nghymru. Bydd hyn yn digwydd ar ôl cyhoeddi'r Datganiad Ansawdd yn Haf 2022.**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru'r Cynlluniau Cyflawni ar gyfer Cynlluniau Iechyd Difrifol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu disodli gan Ddatganiadau Ansawdd sy'n egluro ein bwriad polisi a'r hyn a olygir gan wasanaeth da. Maent yn disgrifio'r canlyniadau a'r safonau a ddisgwylir wrth sôn am wasanaethau ansawdd uchel sy'n canolbwytio ar y claf.

Disgwylir i ymddiriedolaethau a byrddau iechyd ddisgrifio sut y byddant yn gweithredu ar ddatganiadau ansawdd drwy eu cynlluniau tymor canolig integredig. Bydd y gwahanol raglenni cenedlaethol, rhwydweithiau a grwpiau gweithredu yn helpu sefydliadau'r GIG i wneud hyn drwy ddatblygu cynlluniau galluogi. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen waith Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Diwedd Oes, a allai fod ar ffurf cynllun gweithredu.

Rwy'n gobethio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

## Don't let the plan run out for dying people in Wales

Marie Curie & Motor Neurone Disease Association: Briefing for Petitions Committee, September 2022

### RE: Marie Curie Cymru and MNDA have decided to request that the Petitions Committee defer discussion on this petition until later in the term.

We are grateful to the Petitions Committee for their ongoing support of Marie Curie Cymru and MND Association's petition on End of Life Care. This has opened a direct communication channel with the Minister for Health and Social Services, and positive steps forward have been made since the launch of the petition in March 2022. We welcome the Minister's response and are delighted with the progress she has outlined, particularly around increased personnel within the NHS Collaborative and more clarity around the potential role of an implementation/action plan.

However, although we welcome the positive developments over recent months, we are still concerned about the implementation of the End of Life Care Programme.

As the Petitions Committee may know, there are currently delays around the development of the new NHS Executive and a lack of clarity on its objectives. The proposed NHS Executive and the End of Life Care Programme are inextricably linked, and we believe that the stalled End of Life Care Programme is not due to a lack of urgency to act, but the ongoing delays around the NHS Executive. We understand that this issue is much wider than just palliative and end of life care, and many other condition-specific implementation groups and networks are working in similar challenging contexts.

Marie Curie continue to work as part of the End of Life Care Board and we have confidence that all efforts are being made to ensure progress on the End of Life Care Programme, despite delays around the NHS Executive. However, we are unsure how the uncertain external environment and new NHS governance arrangements will impact this eagerness to act over the next few months. We would therefore like to ask the Petitions Committee to revisit this petition, along with the Minister's recent response, later on in the term.

The primary objective of this petition was to see tangible progress on implementing the End of Life Care Programme, including the development of an implementation/action plan. Our hope is that in a few months' time, the function of the NHS Executive will be clearer, and the environment will have allowed progress to be made on the End of Life Care Programme and on our petition's key objectives.

#### Clarifying the role of Welsh Government staff working on end of life care

In the meantime, we would appreciate if the Petitions Committee could seek to clarify some information with regards to the "three Welsh Government staff with part of their roles dedicated to supporting the end of life care agenda", as mentioned in the Minister's response.

- Given the commitment in the Programme for Government 2021-2026 to prioritise end of life care, we would like to understand how much time each Welsh Government staff member gives to the end of life care agenda.
- In addition, considering the recent increased capacity for end of life care in the NHS Collaborative, are we likely to see a corresponding increase in capacity within Welsh Government to allow for quicker implementation of the End of Life Care Programme?

## Eitem 3.7

P-06-1271 Caffael y tir gan Network Rail lle mae ATR884 yn rhedeg fel llwybr caniataol a threfnu cynnal a chadw

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rosanne Stirman, ar ôl casglu cyfanswm o 330 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Yr enw lleol ar y llwybr hwn yw Llwybr Cymunedol Cwm Garw ac nid yw wedi cael ei gynnal a'i gadw dros yr 8 mlynedd diwethaf. Mae'n gyswilt hanfodol o ddyffryn sydd ag un pen yn gaeedig ac mae sylwadau i'r Awdurdod Lleol a chyrff eraill yn dal heb eu datrys. Mae un ffordd dosbarthiad A allan o'r dyffryn a'r Llwybr Cymunedol yw'r unig ffordd arall o fynd i mewn ac allan.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1271  
Ein cyf/Our ref LW/01515/22

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

23 Awst 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr pellach ar 13 Gorffennaf ynglŷn â Deiseb P-06-1271 *Caffael y tir gan Network Rail lle mae ATR884 yn rhedeg fel llwybr caniataol a threfnu gwaith cynnal a chadw.*

Mae fy swyddogion nawr wedi cael cyfle i godi'r mater hwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) a ddywedodd eu bod wedi cael trafodaethau manwl gyda Network Rail ynghylch perchnogaeth o'r tir a rhwymedigaethau at y dyfodol. Gan mai mater i Network Rail a BCBC yw hwn, mae'n dda gen i ddatgan a chroesawu'r ffaith fod y ddau barti yn cydweithio'n adeiladol â'i gilydd i ddatrys y mater.

Mae BCBC wedi cadarnhau eu bod yn deall, mewn egwyddor, bod Network Rail yn hapus i drosglwyddo perchnogaeth o'r tir i BCBC. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar ddatrys materion cyfreithiol manwl.

Yn y cyfamser, mae BCBC yn y broses o gomisiynu ymgynghorwyr i gynnal astudiaethau dichonoldeb yn y flwyddyn ariannol hon gan ddefnyddio cyllideb a ddyrannwyd o Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn canfod pa waith sydd ei angen sicrhau bod y llwybr yn bodloni safonau gofynnol, yn ogystal â chostau manwl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lee.Waters@gov.wales](mailto:Correspondence.Lee.Waters@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 139

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae BCBC wedi cynghori eu bod wedi trefnu cyfarfod gyda gwahanol randdeiliaid gan gynnwys Sarah Murphy, AS Pen-y-bont ar Ogwr, aelodau lleol a Sustrans i drafod materion yn ymwneud â'r llwybr.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

## P-06-1272 Gwahardd defnyddio 'cymalau dim anifeiliaid anwes' mewn cytundebau tenantiaeth yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sam Swash, ar ôl casglu 857 o lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae nifer y bobl sy'n rhentu'n breifat yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn – ar hyn o bryd mae llawer yn cael eu gwahardd rhag cadw anifeiliaid anwes oherwydd cymalau yn eu cytundebau tenantiaeth.

Ni ddylai'r manteision o berchen ar anifeiliaid anwes gael eu cyfyngu i bobl sy'n berchen ar dŷ. Dylai'r rhai sy'n rhentu gael yr un hawl i gadw anifail anwes â pherchnogion tai.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Yn ôl Dogs Trust, y prif reswm dros roi cŵn mewn canolfannau ailgartrefu yw oherwydd newid mewn amgylchiadau, fel methu byw mewn eiddo rhent gydag anifail anwes. Mae'r cymalau hyn hefyd yn atal nifer fawr o bobl rhag gwirfoddoli i ailgartrefu anifeiliaid anwes; maent yn cael eu gwahardd rhag gwneud hynny i bob pwrpas o ganlyniad i'w statws fel tenant. Mae hyn yn golygu bod anifeiliaid anwes yn dioddef yn ogystal â thenantiaid.

Ym mis Ionawr 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU Gytundeb Tenantiaeth Enghreifftiol newydd a oedd yn gwahardd landlordiaid rhag cyflwyno gwaharddiadau cyffredinol ar anifeiliaid anwes. Caniatâd ar gyfer anifeiliaid anwes yw'r safbwyt arferol erbyn hyn. Yng Nghymru, nid yw hyn wedi'i gynnwys, ac felly mae tenantiaid Cymru yn llai tebygol o allu cadw anifail anwes na thenantiaid eraill yn y DU.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Alyn a Deeside
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref P-06-1272  
Ein cyf/Our ref JJ/01547/22

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jack Sargeant AS  
